

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

Dydd Iau, 23 Chwefror 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o'r CYNGOR yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo gynhadledda ar Ddydd Iau, 2 Mawrth 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
3. Materion Personol
4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 (Tudalennau 5 - 10)
5. I ystyried adroddiad ar y cyd gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Ariannol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2023/24, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (Tudalennau 11 - 86)
6. I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 (Tudalennau 87 - 100)
7. I ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth

**Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR)
2023/24 (Tudalennau 101 - 120)**

8. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar gyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad - Recriwtio Prif Swyddogion (Tudalennau 121 - 124)**
9. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar apwyntio dau Ymddiriedolwr i elusen Gwobrau Evan Morgan (Tudalennau 125 - 132)**
10. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democratiaidd ar Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol (Tudalennau 133 - 140)**
11. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar apwyntio Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 141 - 142)**
12. **I nodi Aelodaeth y Grŵp Datblygu**
- | | | |
|---|---|--|
| Plaid Cymru | 3 | Cyng Bryan Davies
Cyng Clive Davies
Cyng Alun Williams |
| Annibynnol
(Cadeirydd/Is-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg
a Chraffu Adnoddau Corfforaethol*) | 1 | Cyng Rhodri Evans |
| Democratiaid Rhyddfrydol
(Cadeirydd/Is-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg
a Chraffu Adnoddau Corfforaethol*) | 1 | Cyng Geraint Hughes |

*Ar gyfer tymor y swydd, bydd y Grŵp Annibynnol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhannu rolau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd – gan gyfnewid bob dwy flynedd

13. **Enwebu cynrychiolydd cyflogwr i Gronfa Pensiwn Dyfed**
14. **I gadarnhau Aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeisdrefol ddilynol (Tudalennau 143 - 150)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Edwards', written in a cursive style.

Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION
a gynhaliwyd yn Neuadd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy
fideo-gynadledda ar Dydd Iau, 26ain Ionawr, 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), y Cynghorydd Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall. (10.00 - 11.00 am)

Gweithdrefn

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb l'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau

Fe wnaeth y Cyngorwyr Rhodri Davies, Elaine Evans, Eryl Evans a Ceris Jones ymddiheuro am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

Fe wnaeth y Cynghorydd Rhodri Evans ymddiheurio am ei anallu i fynychu'r cyfarfod oherwydd ei fod ar ddyletswyddau eraill y Cyngor.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

- a) Datganodd y Cynghorydd Endaf Edwards ddiddordeb personol mewn perthynas â eitem 6 isod;
- b) Datganodd y Cyngorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Geraint Hughes a Chris James ddiddordeb personol a rhagfarnol mewn perthynas â eitem 10 isod, gan adael y cyfarfod yn ystod yr eitem hon;
- c) Datganodd Eifion Evans, Prif Weithredwr fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas â eitem 10 isod, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Llywodraeth Leol ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem hon;
- d) Datganodd y Cyngorwyr Euros Davies, Gareth Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Keith Henson, Geraint Hughes, Chris James, Gwyn James, John Roberts a Matthew Vaux ddiddordeb personol a rhagfarnol mewn perthynas â eitem 11 isod, gan adael y cyfarfod yn ystod yr eitem hon;
- e) Datganodd Eifion Evans, Prif Weithredwr, diddordeb personol a rhagfarnol ar ran yr holl Uwch Swyddogion a oedd yn bresennol mewn perthynas â eitem 11 isod, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Llywodraeth Leol. Fe wnaeth yr aelodau hynny o staff adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Arhosodd Angharad Rees, Swyddog AD, y swyddog cofnodion a'r cyfieithydd yn y cyfarfod yn ystod trafodaethau.

3 Materion Personol

- a) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Evans Nancy Davies ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed;

Tudalen 6

- b) Llongyfarchodd y Cynghorydd Wyn Evans Jessica, Charlotte ac Emily Smith-Jones o Aberaeron ar ganu gyda Rhys Meirion ar raglen 'Canu Gyda Fy Arwr' ar S4C.
- c) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Huw Thomas o Bontsian ar dderbyn cydnabyddiaeth am ei waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- ch) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Llinos Davies o Ffostrasol ar ennill gwobr am Ragoriaeth mewn Nyrsio 2022;
- e) Estynnodd y Cynghorydd Caryl Roberts ei chydymdeimlad â theulu Kevin Jenkins, a fu'n ffigwr hynod arwyddocaol yn hyfforddi'r timau pêl-droed ieuencid a merched ym Mhenrhyncoch;
- f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwennog ar eu llwyddiant yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus.

4 **Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022**

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 fel rhai cywir.

6 **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddarwyd 2021/22 i'r Cyngor, gan nodi bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 8 Gorffennaf 2022, a'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Ionawr 2023.

Nododd fod mân ddiwygiadau wedi'u gwneud i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 gan gyfeirio at ddiwygio dyddiadau; cynnwys adolygiad hunan-asesu Cod Rheoli Ariannol CIPFA; sylwadau a dyddiadau wedi'u diweddarau ar gyfer Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol a mân wallau teipograffigol wedi'u cywiro.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

6a **Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon 2021/22**

Croesawodd y Cadeirydd Jason Blewitt ac Eleanor Ansell o Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Jason Blewitt Adroddiad ISA260 mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2021/22, gan nodi nad oes unrhyw faterion arwyddocaol yn deillio o'r archwiliad. Nodwyd bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau wedi newid o 30 Tachwedd 2022 i 31 Ionawr 2023 oherwydd materion cenedlaethol a bod Ceredigion wedi cydymffurfio â'r holl ofynion mewn perthynas â hyn. Cadarnhaodd Archwilio Cymru mai eu bwriad oedd cyhoeddi barn archwilio diamod ar gyfrif y flwyddyn.

Nododd aelodau eu pryder bod yr adroddiad yn nodi rhai materion yn ymwneud ag asedau'r Cyngor. Cadarnhaodd Alan Davies, Cadeirydd Llywodraethu ac Archwilio bod y mater hwn yn cael sylw ar hyn o bryd gan Swyddogion ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Diolchodd y Cynghorydd Gareth Davies, i'r Gwasanaeth Cyllid am gynhyrchu cyfrifon mor rhagorol, gan nodi bod y farn ddiamedod a roddwyd gan Archwiliad Cymru yn dyst i'r ffaith fod y taflenni balans a'r cyfrifon wedi'u rheoli mewn modd cyfrifol iawn. Nododd hefyd ei fod wedi cael sicrwydd bod cynllun gweithredu yn ei le a fydd yn sicrhau bod y materion a godwyd ynghylch prisiau asedau yn cael eu cyflawni mewn modd amserol, a bod mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd hwn yn broblem y flwyddyn nesaf. Llongyfarchodd Steve Johnson, sef y Swyddog S151 ar y pryd yn ystod 2021/22, Duncan Hall a Justin Davies am eu gwaith.

6b Sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr adroddiad

Nododd Alan Davies, Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021/22 yn fanwl ar 19 Ionawr 2023, a'u bod yn hapus gyda'r adroddiad, ac wedi argymhell y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo. Diolchodd i Archwilio Cymru am gynhyrchu adroddiad cadarnhaol gan longyfarch y tîm yng Ngheredigion ar eu hadroddiad diamedod.

6c Datganiad Cyfrifon 2021/22

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael ei bod yn bleser cyflwyno Datganiad Cyfrifon ac Adroddiad ISA260 diamedod i'r Cyngor. Nododd sefyllfa o danwariant cyffredinol o £668,000, fod lefel y Gronfa Gyffredinol wedi codi i £6.720m a bod lefel y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi wedi cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn i ychydig o dan £54m.

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Davies i'r staff am eu diwydrwydd a'u gwaith caled, yn wedi gweithio ochr yn ochr â'r Aelodau gan darparu gweithdai hyfforddiant cyllideb. Nododd Aelodau yn ogystal bod staff wedi prosesu taliadau grant dros £14m yn ystod yr un adeg er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yr economi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Diolchodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr i bawb am eu sylwadau cadarnhaol, a diolchodd i'r Swyddogion a Rheolwyr ar draws pob Gwasanaeth y Cyngor am reoli eu cyllidebau yn dynn a chyda gofal gwyb.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyngor a Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2021/22.

7 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar y gofyniad i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr 2023

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael yr adroddiad gan nodi, yn unol â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Rheoliad Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ei bod yn ofyniad i awdurdodau lleol ystyried yn flynyddol a ddylid adolygu neu ddisodli eu cynllun presennol, ac ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n credu sy'n debygol o fod â buddiant wrth weithredu ei gynllun lle cynigir unrhyw ddiwygiadau. Nododd nad yw'r cynllun wedi newid ers y llynedd, a'i fod yn seiliedig ar gynllun Llywodraeth Cymru, ac er ei fod yn cael ei ariannu'n

Tudalen 8

rhannol gan Lywodraeth Cymru, mae'n siomedig nad yw'r cynllun yn cael ei ariannu'n llawn.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi gwneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023;
2. Mabwysiadu darpariaethau Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig (2013) fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor y Cyngor yn 2023/24, yn amodol ar y disgrisiwn lleol y mae'r Cyngor yn gallu ei arfer, fel y nodir isod:
 - i. Parhau â'r gostyngiad o 100% uwchben y £10 statudol sy'n cael ei diystyru o safbwynt Pensiynau Anabled Rhyfel, Pensiwn Rhyfel Gwagedd Gweddw a Phensiwn Rhyfel Gwŷr Gweddw, ar gyfer pensiynwyr a phobl oedran gweithio sy'n hawlio.
 - ii. Peidio ag ymestyn y cyfnodau talu estynedig ar gyfer pensiynwyr a phobl o oedran gweithio sy'n hawlio y tu hwnt i'r pedair wythnos safonol a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.
 - iii. Peidio ag ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pensiynwyr a phobl o oedran gweithio sy'n hawlio y tu hwnt i'r tri mis safonol a nodir yn y Cynllun Rhagnodedig.

8 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar Adolygu Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar faterion Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd y adroddiad gan nodi hynny gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 23 Tachwedd 2022.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, mae'r diwygiadau canlynol wedi'u gwneud i'r Weithdrefn ar gyfer Cymhwyso Awdurdodiad Gwyliadwriaeth Cyfarwyddiadol:

- Gallu ychwanegol i Awdurdodi Swyddogion ddirprwyo dros ei gilydd lle nad yw'r Swyddog Awdurdodi ar gyfer y gwasanaeth perthnasol ar gael a gall yr oedi a achosir gyfaddawdu'r ymchwiliad;
- Ychwanegodd y dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried cais am awdurdodiad gwyliadwriaeth wedi'i gyfarwyddo o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Diolchodd y Cynghorydd Keith Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i Elin Prysor a'i thîm am Aelodau blaenllaw drwy'r broses, ac fe gadarnhaodd fod y Pwyllgor Craffu o blaid y gwelliannau arfaethedig.

Yn dilyn pleidlais , **PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo'r newidiadau a wnaed i Ddogfennau'r Cyngor RIPA RHAN 11 Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth ddynol a Dogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol Dada Cyfathrebu ('Polisi RIPA') ynghlwm yn **Atodiad 1** fe y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 23/11/22; a
- b) Chymeradwyo'r ddau newid pellach a nodwyd yn yr adroddiad yma i'r Weithdrefn Cyflwyno cais Awdurdod Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ym mholisi RIPA (tudalennau 27 a 28 **Atodiad 1**).

9 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar apwyntio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar faterion Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad, gan nodi, yn dilyn proses recriwtio, bod Gail Storr wedi cael ei dewis yn Aelod Annibynnol / Lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Nodwyd, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor, y byddai'r aelod lleyg newydd yn cael ei phenodi am un tymor o 6 mlynedd, gydag opsiwn i ailbenodi am ail dymor o 4 blynedd, hyd at ddim mwy na dau dymor gweinyddol olynol gan gynnwys y tymor presennol (hyd at 10 mlynedd, hyd at 29 Gorffennaf 2032).

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo penodi Gail Storr yn Aelod Annibynnol / Lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o 30 Gorffennaf 2023 hyd at 29 Gorffennaf 2029.

10 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Awdurodi'r Polisiau Tâl Athrawon**

Cyflwynodd y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet yr Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yr adroddiad gan nodi ei fod yn cynnwys polisi ar gyfer Athrawon ac Athrawon digyswllt sy'n ymwneud â thâl ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

Nododd fod cynydd o 5% i'r holl bwyntiau a lwfansau ar raddfa statudol eisoes wedi'u gweithredu, ac y bydd staff rhan-amser ar daliad Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD1 a CAD2) yn derbyn taliad llawn amser lle gellir cyflawni dyletswyddau llawn y lwfans ofewn yr oriau gwaith arferol. Hefyd, o ganlyniad i'r ddau ŵyl banc ychwanegol yn ystod 2022/23 rhaid i athrawon fod ar gael i weithio 193 o ddiwrnodau yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Yn olaf, cadarnhaodd fod ymgynghori wedi digwydd gyda'r Undebau Llafur a bod eu hymrwymiad yn hynod o bwysig o ran cyflwyno'r adroddiad hwn.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo:

- a) Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon 2022/23 a'i gymeradwyo i'r Cyrff Llywodraethu er mwyn ei fabwysiadu yn ysgolion Ceredigion.

- b) Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon Digyswllt 2022/23 ar gyfer athrawon a gyflogir yn ganolog.

11 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Bolisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2023/24

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r pwyllgor. Nododd fod adrannau 2.4 a 2.5 yn ymwneud â gwerthuso swyddi, gan esbonio y byddai unrhyw ddirchafiad i grŵp penodol o staff, yn cael effaith ar y garfan gyfan o staff.

Nododd fod cynnydd mewn cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer staff NJC, Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion 2022/23 o £1,925 sy'n cyfateb gyda oddeutu 10% i'r rhai sydd ar y cyflogau isaf wedi'i ychwanegu at bob gwynt graddfa cyflog ac wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2022; bod y raddfa gyflog pwynt 1 NJC i'w ddileu o 1 Ebrill 2023; bod y cytundeb cyflog cenedlaethol i staff Soulbury heb ei gytuno eto ond y bydd yn cael eu ôl-ddyddio i 1 Medi 2022 ar ôl ei gyhoeddi; ac y bydd 1 diwrnod ychwanegol o wyliau yn cael ei ychwanegu at delerau ac amodau staff ar delerau NJC a Soulbury o 1 Ebrill 2023.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 2
Mawrth 2023**

CADEIRYDD: _____

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	Cyngor Llawn
Dyddiad y cyfarfod:	02/03/23
Teitl:	Adroddiad ar y Cyd gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet - Cyllid a Chaffael, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2023/24, gan gynnwys y Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn wedi'i diweddarau a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys.
Pwrpas yr adroddiad:	Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24; pennu lefel Treth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir ar gyfer 2023/24; cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a'r Dangosyddion Darbodus.
Er:	Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet:	Y Cynghorydd Bryan Davies - Arweinydd y Cyngor Y Cynghorydd Gareth Davies - Aelod o'r Cabinet: Cyllid a Chaffael Holl Aelodau'r Cabinet

1. CYFLWYNIAD

Croesawyd y cynnydd uwch na'r disgwyl yn Setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 23/24 o 8.1% (ar sail arian parod). Dylai hyn sicrhau, ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24, y gellir diogelu gwasanaethau i drigolion Ceredigion cymaint â phosibl, tra'n cydnabod bod hon yn Gyllideb heriol iawn o hyd.

Mae'r pwysau o ran Costau a wynebir gan y Cyngor yn gyfanswm o £22m na welwyd ei debyg o'r blaen, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant penodol i Geredigion o dros 13%. Mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa lle y mae chwyddiant yn gyffredinol yn 10.5% (ffigur CPI ar gyfer Rhagfyr 2022). Felly bu angen dod o hyd i ddiffyg o £12m yn y gyllideb o gyfuniad o ystyriaethau ynghylch gwneud Arbedion yn y Gyllideb a chodi Treth y Cyngor.

Yn gyffredinol, nid yw'r meysydd lle y gwelir pwysau o ran Costau yn unigryw i Geredigion. Mae themâu sy'n codi dro ar ôl tro yn debyg i'r rhai y cyfeirir atynt yn y wasg genedlaethol, sy'n effeithio ar ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal â sefyllfa ariannol aelwydydd unigol. Maent yn amrywio o Ynni i Danwydd i Ddyfarniadau Cyflog uwch na'r arfer ar gyfer Staff, i Gontractau sy'n cynnwys cymalau sy'n gysylltiedig â chwyddiant.

Mae yna hefyd gynnydd sylweddol yn yr ardoll gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd ar lefel nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Mae cynnydd o 13%

Tudalen 12

yn eu Cyllideb graidd yn arwain yn ei dro at bwysau sylweddol o ran cost, mewn termau cymharol, ar gyllideb y Cyngor ei hun (sy'n cyfateb i gynnydd Band D Treth y Cyngor o 1.3% ar gyfer 23/24).

Mae'r galwadau ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynyddu, a hefyd, ceir dros £1.7m ar ffurf cyllid yn y Setliad Dros Dro (1.5% o'r codiad o 8.1%) y mae angen ei drosglwyddo i wasanaethau a Gomisiynir yn Allanol yng Ngheredigion er mwyn sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn parhau i gael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf (sydd wedi codi o £9.90 i £10.90 yr awr - codiad o 10.1%).

Ni fu'n bosibl ariannu'n llawn yr holl bwysau o ran costau sy'n cael eu profi gan Ysgolion, fodd bynnag darperir ar gyfer cynnydd cyfartalog o 5.8% o fewn Cyllideb 23/24. Gydag ail-negodi dyfarniad cyflog Athrawon Medi 2022 a'r Undebau yn gwrthod cynnig diwygiedig gan Lywodraeth Cymru wedi hynny, mae ansicrwydd o hyd ynghylch sut a phryd y bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys. Ceisir sicrwydd y bydd unrhyw gostau ychwanegol o ran dyfarniad cyflog Athrawon yn 22/23 ac sy'n barhaus yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf heriau gweithredol ar adegau mewn rhai Gwasanaethau, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni rheoleiddwyr allanol. Aseswyd y Cyngor gan Archwilio Cymru fel un sy'n parhau i fod yn sefydlog yn ariannol, er ei fod yn cydnabod bod heriau ariannol o'n blaenau, gan greu risgiau ariannol parhaus.

Lefel bresennol Treth y Cyngor Band D 22/23 yng Ngheredigion (ar gyfer yr holl gydrannau) yw £1,777.27, sy'n cyd-fynd â'r Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £1,777.18. Mae lefelau Treth y Cyngor ar gyfartaledd yng Nghymru hefyd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Unedol Lloegr o £2,034 ar gyfer 22/23. Elfen y Cyngor Sir o'r Dreth Gyngor Band D 22/23 ar hyn o bryd yw £1,447.90.

Mae'r Arweinydd a'r Cabinet, fel y mae pob Cynghorydd, yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae'r argyfwng Costau Byw yn ei chael ar sefyllfa ariannol aelwydydd. Cynigir bod codiadau Treth y Cyngor ar gyfer 23/24 yn cael eu cadw ymhell islaw'r gyfradd chwyddiant gyfredol gyda chodiad 6.0% yn cael ei gynnig ar gyfer gwasanaethau craidd y Cyngor sydd, o'i ychwanegu at godiad o 1.3% i ariannu ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn arwain at godiad o 7.3% at ddibenion y Cyngor Sir - sef £105.70 ychwanegol ar gyfer eiddo Band D.

Mae cyfnod heriol ac anodd yn parhau i fod o'n blaenau – gyda chodiad cyfartalog dangosol o +3.1% yn unig ar gyfer Setliad Llywodraeth Cymru yn 24/25. Canolbwyntir ar faint yr her fel rhan o gyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddarau maes o law.

2. CEFNIDIR

Ar 24/01/23, ystyriodd a chymeradwyodd y Cabinet adroddiad ynglŷn â Gofyniad y Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2023/24, Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn wedi'i

Tudalen 13

diweddarau a gwnaeth argymhelliad drafft ar lefel arfaethedig Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion llawn sefyllfa gyffredinol y Gyllideb ac roedd yn seiliedig ar setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad a'r penderfyniadau i'w gweld yn:

[Agenda Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y Cabinet, Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2023, 10.00 am](#)

Ar 02/02/23, cafodd y Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu gyflwyniadau gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ac yna ystyriodd yr adroddiad ynglŷn â'r Gyllideb ddrafft ac argymhellion y Cabinet.

Ar 09/02/23 a 10/02/23, cafodd y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig gyflwyniadau gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ac Aelodau Cabinet unigol ar gyfer y priod wasanaethau ac yna ystyriodd yr adroddiad ynglŷn â'r Gyllideb ddrafft ac argymhellion y Cabinet, yn ogystal â chynigion Ffioedd a Chostau.

3. CYLLIDEB REFENIW

Ar 14/02/23, cafodd y Cabinet adborth ffurfiol o gyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac o ganlyniad penderfynodd y Cabinet:

- 1. Argymell i'r Cyngor Llawn yn dilyn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch parhau i Barcio Ceir am Ddim yn Llandysul a Thregaron, y dylai'r gost bosibl o £40k sy'n gysylltiedig â hyn gael ei hariannu o'r Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni ac mai dim ond o dan opsiwn Treth y Cyngor nad yw'n is na 7.3% y mae'r dull hwn o weithredu yn bosibl.*
- 2. Argymell i'r Cyngor Llawn mai Gofyniad Cyllideb 23/24 yw £180.101m a chynnydd o 7.3% yw lefel Treth y Cyngor a gynigir ar gyfer 23/24 at ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd yn Ardoll yr Awdurdod Tân).*
- 3. Nodi'r Adborth o bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb; a nodi bod pob un o'r Pwyllgorau thematig wedi argymell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/24 (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â chynnydd Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m.*

Disgwylir i fanylion Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Terfynol Llywodraeth Cymru fod ar gael ar 28/02/23 (ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi), pan ddisgwylir hefyd i Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi.

Yr unig newid a ddisgwylir yw cynnwys £143k mewn perthynas â grant Pensiynau Awdurdod Tân. Mae hwn yn symud o fod yn grant penodol (a dalwyd yn uniongyrchol

Tudalen 14

o'r blaen i Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru) i'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae hyn eisoes wedi'i gynnwys yn y cyfrifiadau presennol ar gyfer Gofyniad y Gyllideb.

Mae crynodeb o gyfrifiad Gofyniad arfaethedig y Gyllideb 23/24, sef cyfanswm o £180.101m i'w weld yn Atodiad 1.

Rhodddwyd cyfle i'r holl Aelodau gynnig opsiynau eraill o ran y Gyllideb yn ychwanegol at yr argymhellion craidd a wnaed gan y Cabinet ar 24/01/23, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb a bod y swyddog Adran 151 wedi cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi barn ar ei chadernid. Ac eithrio'r ystyriaeth Parcio Ceir am Ddim yn Llandysul a Thregaron, nid oes dim cynigion ffurfiol eraill wedi'u cyflwyno.

Mae'r gyfres lawn o bapurau'r Gyllideb bellach wedi'u paratoi yn unol ag argymhellion y Cabinet. Mae'r Cyllidebau Rheoladwy dilynol hefyd wedi'u diweddarau i adlewyrchu gofynion cyfrifyddu ar gyfer dyraniadau / ail-godiadau tâl Mewnol (e.e. Gwasanaethau Cymorth) a chostau Cyfalaf i gyrraedd Cyllidebau Net gan gynnwys yr eitemau hyn. Mae manylion y Cyllidebau Rheoladwy a Net arfaethedig felly wedi'u hamgáu fel Atodiad 2.

4. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wrthi'n cael ei diweddarau i adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo o dan amrywiol ffrydiau gwaith 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Gweithredu Corfforaethol', yn ogystal â chaniatáu mwy o amser i ystyried setiau data Cyfrifiad 2021, yn ogystal â defnyddio heb fod dros lefel ddangosol 3.1% o gyllid Setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25 fel procsi cyllid ac ystyriaethau i'w gwneud ynghylch amcangyfrifon Dyfarniadau Cyflog yn y dyfodol (sy'n parhau i fod yn anodd eu hamcangyfrif). Byddai cynnydd o 3.1% ond yn rhoi £4m ychwanegol o gyllid.

Felly, bwriedir cyflwyno'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig wedi'i diweddarau fel adroddiad ar wahân maes o law, er mwyn caniatáu dull gweithredu mwy ystyriol ac â mwy o ffocws, o ystyried y bydd penderfyniadau anodd pellach o'n blaenau y tu hwnt i 23/24. Mae'n debygol y bydd angen i'r gwaith ar Gyllideb 24/25 hefyd ddechrau'n gynt o lawer nag arfer.

5. STRATEGAETH GYFALAF A'R RHAGLEN GYFALAF AML-FLWYDDYN

Mae cyllid Cyfalaf cyffredinol wedi codi'n sylweddol ar draws Cymru o £150m i £180m. Fodd bynnag, cyhoeddwyd y cynnydd hwn 12 mis yn ôl, felly roedd eisoes wedi'i adlewyrchu'n fras yn Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn bresennol y Cyngor.

Y dyraniad Cyfalaf Cyffredinol i Geredigion ar gyfer 23/24 yw £5.860m (roedd yn £4.891m ar gyfer 22/23), wedi'i rannu'n Fenthyca â Chymorth o £2.891m a Grant Cyfalaf Cyffredinol o £2.969m. Nid yw lefelau cyllid cyfalaf fodd bynnag fyth wedi

Tudalen 15

dychwelyd i'r uchafsymiau o £7m a welwyd cyn y cyfnod cyni yn ôl yn 2008/09. Ar ben hyn, bydd swm ychwanegol o £20m ar gael ar draws Cymru yn ystod 23/24 a 24/25 ar gyfer Datgarboneiddio, fel rhan o'r targed sero net ar gyfer 2030. Rydym yn aros am fanylion pellach ynghylch sut i wneud cais a manteisio ar y gronfa hon o hyd.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi'i hatodi (Atodiad 3) fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet ar 24/01/23 ac fel y'i hystyriwyd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn wedi'i hatodi (Atodiad 4) fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet ar 24/01/23 ac fel y'i hystyriwyd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Y Rhaglen Gyfalaf wedi'i diweddarau a gynigir ar gyfer 2022/23 yw £35.3m a £60.1m ar gyfer 2023/24. Cyfanswm y rhaglen Gyfalaf arfaethedig dros y cyfnod rhwng 2022/23 a 2025/26 yw £129.8m.

6. DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER RHEOLI CYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r Dangosyddion Darbodus arfaethedig sydd wedi'u hatodi (Atodiad 5). Mae hefyd yn angenrheidiol bob blwyddyn i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

7. BARN Y SWYDDOG ADRAN 151 (SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL - CYLLID A CHAFFAEL)

O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Swyddog Adran 151 roi adroddiad yn ffurfiol i'r Cyngor fel rhan o broses pennu'r Gyllideb ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion y cyfrifiadau a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

O ystyried yr holl faterion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn a phroses gysylltiedig y Gyllideb, gallaf gadarnhau bod amcangyfrifon y Gyllideb arfaethedig wedi'u paratoi mewn modd digon cadarn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Cyllideb 23/24 yn amodol ar gyflawni, yn barhaus, Arbedion y Gyllideb trwy amrywiol ffrydiau gwaith a bydd y rhain yn cael eu monitro mewn ffordd weithredol yn ystod y flwyddyn trwy'r trefniadau rheolaeth ariannol arferol. Mae hyn yn cynnwys diweddarau'r Cyllidebau Diweddaraf yn ystod y Flwyddyn yn rheolaidd, cyflwyno adroddiadau Monitro Ariannol rheolaidd i'r Cabinet, adrodd am eithriadau yn ôl y gofyn a Deiliaid Cyllidebau yn cymryd camau unioni yn ddigon cynnar yn ystod y flwyddyn os bydd problemau annisgwyl yn codi. Nid yw dyfarniadau cyflog wedi'u pennu eto ar gyfer 2023/24, felly mae darpariaeth ganolog wedi'i gwneud i ganiatáu ar gyfer lefel benodol o risg yn y maes hwn a hefyd gyda chostau Ynni.

Mae datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Balansau Cyffredinol y Cyngor wedi'i atodi ar ddiwedd Atodiad 2 a gallaf gadarnhau bod lefel amcangyfrifedig y Balansau Cyffredinol o £6.7m yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n

Tudalen 16

disgyn o fewn yr ystod arfaethedig o 3% i 5%. Mae Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd bellach wedi cyrraedd eu huchafbwynt o £54m ar 31/03/22 a rhagwelir y byddant yn gostwng yn awr yn ystod 2022/23 a 2023/24, ond mae hyn yn cael ei wneud mewn ffordd reoledig gyda Chronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu defnyddio at ddibenion penodol iawn yn unig.

Mae rhagolygon y Gyllideb y tu hwnt i 23/24 yn debygol o fod yn heriol iawn os daw cynnydd o 3.1% yn unig yn Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25. Felly bydd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddarau ac â ffocws iddi yn hanfodol i barhau â hanes blaenorol y Cyngor o reolaeth ariannol gadarn, gwelliant parhaus a chyflawni cyllidebau cytbwys. Bydd hyn yn gofyn am allbynnau pellach o'r ffrydiau gwaith 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Gweithredu Corfforaethol', yn ogystal ag arbedion eraill y Gyllideb, effeithlonrwydd a chyfleoedd amgen i'w datblygu a'u darparu ar gyfer 24/25 a thu hwnt.

Argymhellion:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
 - bod amcangyfrifon Cyllideb 2023/24 wedi'u paratoi mewn modd cadarn, a
 - bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.
2. Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24 o £180.101m, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.
3. Cymeradwyo Cyllidebau 2022/23 a Chyllidebau 2023/24 manwl a ddiweddarwyd, fel yr amlinellir yn Atodiad 2.
4. Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,553.60 ar gyfer 2023/24 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £105.70 neu 7.3%.
5. Nodi bod y cynnydd o 7.3% ym Mand D Treth y Cyngor yn cynrychioli cynnydd o 6.0% ar gyfer Gwasanaethau craidd y Cyngor ac 1.3% pellach er mwyn ariannu cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2023/24.
6. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 3.
7. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
8. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
9. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

Rheswm dros penderfyniad:

y Er mwyn galluogi Cyllideb 23/24 i gael ei phennu a chwblhau elfen y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor.

Tudalen 17

Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd ar 02/02/23, 09/02/23 a 10/02/23
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1972
Papurau Cefndir:	14/12/22 - Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru 24/01/23 - Adroddiad cyllideb i'r Cabinet 02/02/23 - Cyfarfod Cydlynu Craffu 09/02/23 - Cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu 10/02/23 - Cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu 14/02/23 - Adroddiadau Adborth Craffu i'r Cabinet 14/02/23 - Adroddiad cyllideb i'r Cabinet
Atodiadau:	Atodiad 1: Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb Atodiad 2: Cyllidebau Rheoladwy a Net (gan gynnwys Datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Balansau Cyffredinol) Atodiad 3: Strategaeth Gyfalaf Atodiad 4: Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn Atodiad 5: Dangosyddion Darbodus
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall
Swyddog(ion) Adrodd:	Duncan Hall a Justin Davies
Dyddiad:	21/02/23

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

<u>Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb</u>		<u>£'000</u>
<u>Adnoddau sydd ar Gael 2023/24</u>		
Cyllid Allanol Cyfun (Grant Cynnal Refeniw + Ardreth Annome	2022/23: £119,421	129,050
<u>Incwm Treth y Cyngor</u>		
Sylfaen Treth y Cyngor (yn unol ag adroddiad Cabinet 06/12/22)	32,346.55	
Treth y Cyngor 2022/23	£1,447.90	
Treth y Cyngor 2023/24 yn cynyddu	7.30% £1,553.60	50,253
Sylfaen Premiwm 2il Gartrefi Treth y Cyngor (yn unol ag adroddiad Cabinet 06/12/22)	421.44	
Treth y Cyngor 2022/23	£1,447.90	
Treth y Cyngor 2023/24 yn cynyddu	7.30% £1,553.60	655
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar Gael ar gyfer Gofyniad y Gyllideb (yn y Setliad Dros Dro)		179,958
Ychwanegu cynnig Llywodraeth Cymru i drosglwyddo Grant Pensiynau Awdurdodau Tân i'r Setliad Terfyn		143
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar Gael ar gyfer Gofyniad y Gyllideb (disgwyllir yn y Setliad Terfynol)		180,101
Cyllideb Sylfaenol wedi'i Haddasu a ddupwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol 2022/23		165,843
<u>Addasiadau Corfforaethol a Chyfrifoldebau Newydd:</u>		
<u>Dyraniadau Penodol</u>		
- Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru		519
- Premiwm 2il Gartrefi Treth y Cyngor		65
- Ariannu Rhaglen Gyfalaf		200
- Cynllun Cymorth Gostyngiadau Treth y Cyngor		460
- Lwfansau Aelodau		47
- Ffioedd Archwilio Allanol		30
- Darpariaeth ar gyfer risgiau yn ymwneud â chwyddiant o ran ynni a thâl		360
- Gwrthdroi Rhagdybiaethau Gwarged Treth y Cyngor Ch1 bellach wedi'u cynnwys yn y Sylfaen Drethu		700
		2,381
<u>Trosglwyddiadau i mewn (Wedi'u cynnig ar gyfer y Setliad Terfynol):</u>		
- Grant Pensiynau Awdurdod Tân i Gyllideb yr Ardoll Tân		143
		143
Is-gyfanswm		2,524
<u>Mwy o bwysau o ran costau ar Wasanaethau</u>		
- Diffyg Dyfarniadau cyflog 2022/23 yn erbyn Darpariaeth gyfredol y Gyllideb Sylfaenol		3,058
- Cost Dyfarniadau cyflog 2023/24		6,249
- Costau Gweithwyr Eraill		270
- Gwrthdroad Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25%		(718)
- Yn ymwneud â Chwyddiant Ynni		1,442
- Chwyddiant Cysylltiedig â Thrafnidiaeth		1,266
- Effaith ailbriso Ebrill 2023 Ardreth Annomestig Genedlaethol		(43)
- Chwyddiant cysylltiedig â Chontractau Eraill		3,107
- Trosglwyddiad / Taliadau 3ydd Parti / Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill		5,374
- Colli incwm / Cyllid grant		551
		20,556
<u>Gostyngiadau Costau / Cynigion Arbedion</u>		
- Gwneud pethau'n wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu		(3,035)
- Cyfyngu ar y cynnydd i'w weithredu i Ysgolion Dirprwyedig i 5.8%		(2,065)
- Dileu'r Cyfraniad at gronfa wrth gefn Hybu'r Economi		(2,440)
- Dileu cyllideb sylfaenol Gorfforaethol COVID		(500)
- Gostyngiad yng nghyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed (o 15.8% i 14.6%)		(782)
		(8,822)
2023/24 Gofyniad y Gyllideb Reoladwy a'r Gyllideb Net		180,101

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYLLIDEB 2023-24

CYNNWYS	Tudalen(nau)
Datganiad am Wariant a'r Dreth Gyngor Arfaethedig	2-3
Crynodeb o'r Cyllideb Reoladwy	4
Crynodeb o Wariant Net	5-6
Costau Gweithwyr	7
Cyngor Sir Ceredigion - Crynodeb o Wariant Net	8-9
Cyllidebau'r Gwasanaethau	10-51
Datganiad Cronfeydd Wrth Gefn a neilltuwyd a Balansau Cyffredinol	52-53

BUDGET 2023-24

CONTENTS	Page(s)
Statement of Expenditure and Proposed Council Tax	2-3
Summary of Controllable Budget	4
Summary of Net Expenditure	5-6
Employee Costs	7
Ceredigion County Council - Summary of Net Expenditure	8-9
Service Budgets	10-51
Statement of Earmarked Reserves and General Balances	52-53

Tudalen 22

Datganiad am Wariant a'r Dreth Gyngor Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn gwario £268.4 miliwn yn 2023-24. Bydd incwm o £44.7 miliwn yn dod wrth Grantiau, £32.2 miliwn wrth Incwm Arall a £11.4 miliwn wrth Gronfeydd Wrth Gefn. Bydd y Gwariant Net yn cael ei ddiwallu gan Grantiau'r Llywodraeth a Thalwyr y Dreth Gyngor.

Gwasanaeth	Gwariant Crynswth £000's	Grantiau £000's	Incwm Arall £000's	Cronfeydd Wrth Gefn £000's	Gwariant Net £000's
Ysgolion a Diwylliant	85,815	(15,360)	(3,020)	(50)	67,385
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	14,678	(3,782)	(2,100)	(73)	8,723
Cyllid a Chaffael	10,944	(15,046)	(599)	(122)	(4,823)
Gwasanaethau Democraataidd	2,428	-	(1)	-	2,427
Pobl a Threfniadaeth	966	(264)	(51)	-	651
Porth Cynnal	52,841	(1,212)	(13,170)	(585)	37,874
Porth Gofal	29,898	(4,290)	(4,971)	(56)	20,581
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	4,046	(394)	(316)	-	3,336
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	35,000	(2,924)	(4,748)	(12)	27,316
Economi ac Adfywid	9,071	(1,429)	(3,102)	(353)	4,187
Cyswllt Cwsmeriaid	1,275	-	(16)	-	1,259
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	654	-	(79)	(5)	570
Grŵp Arweiniol	5,133	-	-	-	5,133
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	15,635	-	-	(10,153)	5,482
CYFANSWM	268,384	(44,701)	(32,173)	(11,409)	180,101

Gwariant Net a gyllidir gan: £000's

Crynswth y Cyllid Allanol 129,193

Talwyr y Dreth Gyngor 50,908

180,101

Treth Gyngor Sir Band D (Ac eithirio Heddlu Dyfed Powys a Chynghorau Tref/Cymuned)

£
1,553.60

Tudalen 23

Statement of Expenditure and Proposed Council Tax

The Council is anticipating to spend £268.4 million in 2023-24. Income of £44.7 million will come from Grants, £32.2 million from Other Income and £11.4 million from Reserves. The Net Expenditure will be met by Government Grants and Council Tax Payers.

Service	Gross Expenditure £000's	Grants £000's	Other Income £000's	Reserves £000's	Net Expenditure £000's
Schools & Culture	85,815	(15,360)	(3,020)	(50)	67,385
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	14,678	(3,782)	(2,100)	(73)	8,723
Finance & Procurement	10,944	(15,046)	(599)	(122)	(4,823)
Democratic Services	2,428	-	(1)	-	2,427
People & Organisation	966	(264)	(51)	-	651
Porth Cynnal	52,841	(1,212)	(13,170)	(585)	37,874
Porth Gofal	29,898	(4,290)	(4,971)	(56)	20,581
Policy, Performance & Public Protection	4,046	(394)	(316)	-	3,336
Highways & Environmental Services	35,000	(2,924)	(4,748)	(12)	27,316
Economy & Regeneration	9,071	(1,429)	(3,102)	(353)	4,187
Customer Contact	1,275	-	(16)	-	1,259
Legal & Governance Services	654	-	(79)	(5)	570
Leadership Group	5,133	-	-	-	5,133
Levies, Council Tax Premium & Reserves	15,635	-	-	(10,153)	5,482
TOTAL	268,384	(44,701)	(32,173)	(11,409)	180,101

Net Expenditure Financed by:

£000's

Aggregate External Finance

129,193

Council Tax Payers

50,908

180,101

£

County Council Tax at Band D (Excluding Dyfed-Powys Police and Town/Community Councils)

1,553.60

Tudalen 24

Crynodeb o'r Gyllideb Reoladwy

	Cyllideb 2023-24 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2022-23 £000's	Cyllideb 2022-23 £000's
Gwasanaeth			
Ysgolion a Diwylliant	54,576	50,887	50,965
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	5,160	4,355	4,401
Cyllid a Chaffael	18,900	18,800	19,062
Gwasanaethau Democraidd	4,977	4,628	4,391
Pobl a Threfniadaeth	2,321	2,161	2,165
Porth Cynnal	33,870	28,602	28,648
Porth Gofal	16,256	13,603	13,617
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	2,468	2,340	2,355
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	19,471	18,078	18,241
Economi ac Adfywid	3,984	3,637	3,688
Cyswllt Cwsmeriaid	6,431	6,150	6,155
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,649	1,566	1,569
Grŵp Arweiniol	4,556	6,981	6,831
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd	5,482	4,055	3,755
CYFANSWM Y GYLLIDEB REOLADWY	180,101	165,843	165,843

Summary of Controllable Budget

	Budget 2023-24 £000's	Updated Budget 2022-23 £000's	Budget 2022-23 £000's
Service			
Schools & Culture	54,576	50,887	50,965
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	5,160	4,355	4,401
Finance & Procurement	18,900	18,800	19,062
Democratic Services	4,977	4,628	4,391
People & Organisation	2,321	2,161	2,165
Porth Cynnal	33,870	28,602	28,648
Porth Gofal	16,256	13,603	13,617
Policy, Performance & Public Protection	2,468	2,340	2,355
Highways & Environmental Services	19,471	18,078	18,241
Economy & Regeneration	3,984	3,637	3,688
Customer Contact	6,431	6,150	6,155
Legal & Governance Services	1,649	1,566	1,569
Leadership Group	4,556	6,981	6,831
Levies, Council Tax Premium & Reserves	5,482	4,055	3,755
TOTAL CONTROLLABLE BUDGET	180,101	165,843	165,843

Tudalen 25

Crynodeb o'r Wariant Net

Gwasanaeth	Cyllideb 2023-24 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2022-23 £000's	Cyllideb 2022-23 £000's
Ysgolion a Diwylliant	67,385	63,419	64,199
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	8,723	7,802	7,762
Cyllid a Chaffael	(4,823)	(4,720)	(9,078)
Gwasanaethau Democrataidd	2,427	2,288	2,581
Pobl a Threfniadaeth	651	625	592
Porth Cynnal	37,874	32,381	32,978
Porth Gofal	20,581	17,714	18,927
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	3,336	3,176	3,235
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	27,316	25,674	27,001
Economi ac Adfywid	4,187	3,916	4,376
Cyswllt Cwsmeriaid	1,259	1,416	1,600
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	570	574	601
Grŵp Arweiniol	5,133	7,523	7,314
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	5,482	4,055	3,755
CYFANSWM GWARIANT NET	180,101	165,843	165,843
Crynswth y Cyllid Allanol	129,193	119,419	119,419
Diwallwyd gan Dalwyr y Dreth Gyngor	50,908	46,424	46,424
	Rhif	Rhif	Rhif
Sail y Dreth Gyngor	32,768	32,063	32,063
	£	£	£
Eiddo a ddaw dan Band D y Dreth Gyngor Sir	1,553.60	1,447.90	1,447.90
Treth Band D Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd)	41.98	39.21	39.21
Treth Band D Heddlu Dyfed-Powys	312.65	290.16	290.16
Cyfanswm Cyfartaledd y Dreth Gyngor Band D	1,908.23	1,777.27	1,777.27
Praeseptau'r Cynghorau Cymuned	1,375,663	1,257,222	1,257,222

Tudalen 26

Summary of Net Expenditure

Service	Budget 2023-24 £000's	Updated Budget 2022-23 £000's	Budget 2022-23 £000's
Schools & Culture	67,385	63,419	64,199
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	8,723	7,802	7,762
Finance & Procurement	(4,823)	(4,720)	(9,078)
Democratic Services	2,427	2,288	2,581
People & Organisation	651	625	592
Porth Cynnal	37,874	32,381	32,978
Porth Gofal	20,581	17,714	18,927
Policy, Performance & Public Protection	3,336	3,176	3,235
Highways & Environmental Services	27,316	25,674	27,001
Economy & Regeneration	4,187	3,916	4,376
Customer Contact	1,259	1,416	1,600
Legal & Governance Service	570	574	601
Leadership Group	5,133	7,523	7,314
Levies, Council Tax Premium & Reserves	5,482	4,055	3,755
TOTAL NET EXPENDITURE	180,101	165,843	165,843
Aggregate External Funding	129,193	119,419	119,419
Met by Council Taxpayers	50,908	46,424	46,424
	No.	No.	No.
Council Tax Base	32,768	32,063	32,063
	£	£	£
County Council Tax Band D Properties	1,553.60	1,447.90	1,447.90
Trefeurig	1553.60	16.52	312.65	1882.77	1255.18	1464.38	1673.57	1882.77	2301.16	2719.55	3137.95	3765.54	4393.13
Faenor	1553.60	40.84	312.65	1907.09	1271.40	1483.29	1695.19	1907.09	2330.89	2754.68	3178.49	3814.18	4449.87
Ysgubor-y-Coed	1553.60	21.42	312.65	1887.67	1258.45	1468.19	1677.93	1887.67	2307.15	2726.63	3146.12	3775.34	4404.56
Llanddewi Brefi	1553.60	30.84	312.65	1897.09	1264.73	1475.52	1686.30	1897.09	2318.66	2740.24	3161.82	3794.18	4426.54
Llangeitho	1553.60	14.81	312.65	1881.06	1254.04	1463.05	1672.05	1881.06	2299.07	2717.08	3135.10	3762.12	4389.14
Lledrod	1553.60	7.50	312.65	1873.75	1249.17	1457.36	1665.56	1873.75	2290.14	2706.52	3122.92	3747.50	4372.08
Nantcwnlle	1553.60	5.81	312.65	1872.06	1248.04	1456.05	1664.05	1872.06	2288.07	2704.08	3120.10	3744.12	4368.14
Tregaron	1553.60	40.72	312.65	1906.97	1271.32	1483.20	1695.09	1906.97	2330.74	2754.51	3178.29	3813.94	4449.59
Ysbyty Ystwyth	1553.60	14.43	312.65	1880.68	1253.79	1462.75	1671.72	1880.68	2298.61	2716.53	3134.47	3761.36	4388.25
Ystrad Fflur	1553.60	23.05	312.65	1889.30	1259.54	1469.46	1679.38	1889.30	2309.14	2728.98	3148.84	3778.60	4408.36
Ystrad Meurig	1553.60	13.00	312.65	1879.25	1252.84	1461.64	1670.45	1879.25	2296.86	2714.47	3132.09	3758.50	4384.91
Ciliau Aeron	1553.60	14.02	312.65	1880.27	1253.52	1462.43	1671.35	1880.27	2298.11	2715.94	3133.79	3760.54	4387.29
Henfynyw	1553.60	13.53	312.65	1879.78	1253.19	1462.05	1670.92	1879.78	2297.51	2715.23	3132.97	3759.56	4386.15
Llanarth	1553.60	12.64	312.65	1878.89	1252.60	1461.36	1670.13	1878.89	2296.42	2713.95	3131.49	3757.78	4384.07
Llandysiliogogo	1553.60	18.74	312.65	1884.99	1256.66	1466.11	1675.55	1884.99	2303.87	2722.76	3141.65	3769.98	4398.31
Llanfair Clydogau	1553.60	11.34	312.65	1877.59	1251.73	1460.35	1668.97	1877.59	2294.83	2712.07	3129.32	3755.18	4381.04
Llanfihangel Ystrad	1553.60	14.99	312.65	1881.24	1254.16	1463.19	1672.21	1881.24	2299.29	2717.34	3135.40	3762.48	4389.56
Llangybi	1553.60	14.11	312.65	1880.36	1253.58	1462.50	1671.43	1880.36	2298.22	2716.07	3133.94	3760.72	4387.50
Llanllwchaearn	1553.60	23.01	312.65	1889.26	1259.51	1469.43	1679.34	1889.26	2309.09	2728.93	3148.77	3778.52	4408.27
Llansantffraed	1553.60	38.85	312.65	1905.10	1270.07	1481.75	1693.42	1905.10	2328.45	2751.81	3175.17	3810.20	4445.23
Llanwenog	1553.60	25.63	312.65	1891.88	1261.26	1471.46	1681.67	1891.88	2312.30	2732.71	3153.14	3783.76	4414.38
Llanwnnen	1553.60	16.22	312.65	1882.47	1254.98	1464.15	1673.31	1882.47	2300.79	2719.12	3137.45	3764.94	4392.43
Dyffryn Arth	1553.60	25.59	312.65	1891.84	1261.23	1471.43	1681.64	1891.84	2312.25	2732.65	3153.07	3783.68	4414.29
Aberporth	1553.60	36.41	312.65	1902.66	1268.44	1479.85	1691.25	1902.66	2325.47	2748.28	3171.10	3805.32	4439.54
Beulah	1553.60	28.72	312.65	1894.97	1263.32	1473.87	1684.42	1894.97	2316.07	2737.17	3158.29	3789.94	4421.59
Llandyfriog	1553.60	18.05	312.65	1884.30	1256.20	1465.57	1674.93	1884.30	2303.03	2721.76	3140.50	3768.60	4396.70
Llandysul	1553.60	37.83	312.65	1904.08	1269.39	1480.95	1692.52	1904.08	2327.21	2750.33	3173.47	3808.16	4442.85
Llangedmor	1553.60	50.56	312.65	1916.81	1277.88	1490.85	1703.83	1916.81	2342.77	2768.72	3194.69	3833.62	4472.55
Llangrannog	1553.60	24.51	312.65	1890.76	1260.51	1470.59	1680.68	1890.76	2310.93	2731.09	3151.27	3781.52	4411.77
Penbryn	1553.60	16.32	312.65	1882.57	1255.05	1464.22	1673.40	1882.57	2300.92	2719.26	3137.62	3765.14	4392.66
Troedyrour	1553.60	16.59	312.65	1882.84	1255.23	1464.43	1673.64	1882.84	2301.25	2719.65	3138.07	3765.68	4393.29
Y Ferwig	1553.60	38.94	312.65	1905.19	1270.13	1481.82	1693.50	1905.19	2328.56	2751.94	3175.32	3810.38	4445.44

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Mark	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	2 Mawrth 2023
Teitl:	Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24.
Pwrpas yr adroddiad:	Ystyried Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24.
	ER PENDERFYNIAD
Portffolio Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Davies Gwasanaethau Cyllid a Chaffael

1. CYFLWYNIAD

Bu i'r Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14/02/2023 ystyried Adroddiad ynglŷn â Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24 sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

2. PENDERFYNIADAU'R CABINET

Penderfynodd y Cabinet y dylid:

- (i) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiadau ar gyfer Benthycyca a Buddsoddi;
- (ii) cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B;
- (iii) cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw fel y'i nodir yn Atodiad C;
- (iv) dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Cyllid, Caffael a Diogelu'r Cyhoedd i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi yn ystod y flwyddyn; ac
- (v) argymhell i'r Cyngor Llawn:
 - (a) gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddi 2023/24; a
 - (b) chymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.

Tudalen 102

Argymhelliad:	Argymhellir y dylai'r Cyngor nodi'r adroddiad a chymeradwyo penderfyniadau'r Cabinet
Rheswm dros y penderfyniad:	Pennu Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24
Trosolwg a Chraffu:	I'w ystyried
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24
Amcanion Strategol:	Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl amcanion strategol
Goblygiadau Ariannol:	Cyllid: Incwm Buddsoddi / Llog allanol i'w dalu
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1 – Adroddiad i'r Cabinet ar 14/02/2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Justin Davies - Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd
Dyddiad:	14/02/2023

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	14 Chwefror 2023
Teitl:	Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24.
Pwrpas yr adroddiad:	Ystyried Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24.

ER PENDERFYNIAD

Portffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael
----------------------------	---

1. CYFLWYNIAD

Mae Codau Ymarfer CIPFA ar Reoli Materion Ariannol a'r Trysorlys 2021 yn mynnu bod y Cyngor yn llunio Strategaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Mae hon yn esbonio polisïau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei fuddsoddiadau a'i ddyledion a blaenoriaethu sicrwydd a hylifedd y buddsoddiadau hyn.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Strategaeth yn flynyddol. Cyhoeddir adroddiad canol blwyddyn hefyd, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cyhoeddir Adroddiad Alldro. Hefyd, gall yr Aelodau ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o adroddiadau neilltuol i Bwyllgor Craffu'r Adnoddau Corfforaethol, yn ogystal â hyfforddiant i'r Aelodau ar adegau priodol. Nod y trefniadau adrodd hynny yw sicrhau bod pwy bynnag sydd â chyfrifoldebau amrywiol dros Reoli'r Trysorlys yn llwyr werthfawrogi goblygiadau'r polisïau a'r gweithgareddau sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys, a bod pwy bynnag sy'n gweithredu'r polisïau ac yn cynnal trafodion wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran dirprwyo ac adrodd mewn modd priodol. Mae'r strategaeth a awgrymir ar gyfer 2023/24 wedi ei seilio ar safbwyntiau ynghylch cyfraddau llog, yn ogystal â rhagolygon y farchnad gan ymgynghorwyr ac yswirwyr Trysorlys y Cyngor ac mae'n cynnwys:

- Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys
- Sefyllfa Portffolio'r Trysorlys
- Rhagolygon y cyfraddau llog
- Aildrefnu dyledion
- Polisi Teilyngdod Credyd
- Trefniadau Bancio
- Dangosyddion Darbodus
- Yr Anghenion Cyllidol
- Strategaeth Fenthyciadau
- Strategaeth Fuddsoddi
- Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw

Mae'r elfennau hyn yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Llywodraeth Cymru o ran Buddsoddiadau a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, Cod Darbodus CIPFA a Chod CIPFA o ran Rheoli'r Trysorlys.

Yn ychwanegol at y Strategaeth, yr adroddiadau Canol Blwyddyn a'r adroddiadau alldro, bydd gofyniad hefyd o 2023/24 i adrodd am yr holl ddangosyddion darbodus sy'n edrych ymlaen, gan wneud hynny o leiaf bob chwarter. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd fel ymgynghorwyr allanol i'r Cyngor ynghylch y Trysorlys ar gcontract a ddaw i ben ar yr 30/08/2026. Fodd bynnag, er bod gennym ymgynghorwyr allanol, y Cyngor ei hun sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli'r Trysorlys.

2. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn diffinio ei weithgareddau o ran Rheoli'r Trysorlys fel 'rheoli buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod, ei drafodion o ran bancio, marchnadoedd arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol dros y risgiau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau posibl yn unol â'r risgiau hynny'.

Mae'r Cyngor yn ystyried mai nodi, monitro a rheoli risg yw'r maen prawf pennaf o ran mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau lle mae Rheoli'r Trysorlys yn y cwestiwn. Felly, o ran dadansoddi gweithgareddau sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac adrodd yn eu cylch canolbwyntir ar y goblygiadau sydd o ran risg i'r Cyngor, ac unrhyw offerynnau ariannol yr ymgwymerir â hwy i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd Rheoli'r Trysorlys yn effeithiol yn help iddo gyflawni'r amcanion sydd ganddo o ran ei fusnes a'i wasanaethau. Felly, mae wedi ymrwymo i'r egwyddor o geisio gwerth am arian o ran rheoli'r trysorlys, a gweithredu technegau cynhwysfawr ac addas o ran rheoli perfformiad, yng nghyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

3. DANGOSYDDION DARBODUS

Mae'r Dangosyddion Darbodus sydd yn Atodiad A yn berthnasol o ran gosod Strategaeth integredig ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Fe'u cyflwynir i'w cymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor Llawn ar 02/03/2023.

4. SEFYLLFA PORTFFOLIO'R TRYSORLYS

Dyma fanylion Portffolio Trysorlys y Cyngor:

	<u>Ar</u> <u>30/09/2022</u> <u>£m</u>	<u>Ar</u> <u>31/03/2022</u> <u>£m</u>
<u>Benthyciadau ar Gyfradd</u>		
<u>Sefydlog</u>		
- PWLB	101.7	108.9
- Benthyciadau'r farchnad	5.8	5.8
- Ad-dalu benthyciad Llywodraeth Cymru	0.9	0.9
Cyfanswm y ddyled	108.4	115.6

Tudalen 105

Atodiad 1

<u>Buddsoddiadau</u>		
- Mewnol	42.2	55.5
Cyfanswm y buddsoddiadau	42.2	55.5
Dyled Net	66.2	60.1

Cipolwg ar adeg benodol yw'r ffigurau sydd yn y tabl, ac mae union lefel y benthyciadau a'r buddsoddiadau a wneir yn ystod y flwyddyn yn gallu amrywio'n ddirfawr, wrth i incwm ddod i mewn ac wrth i daliadau gael eu gwneud.

5. Y GOFYNION CYLLIDO

Gellir bwrw amcan ynghylch y gofynion cyllido at y dyfodol trwy ystyried yr eitemau mwyaf sylweddol o ran llif arian sy'n codi o effeithiau cyfun y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf, cyllideb arfaethedig 2023/24, lefel y dyledion sydd ar fin aeddfedu ac union lefel y benthyciadau cyfredol o'i gymharu â'r angen sylfaenol i fenthycia (a adwaenir hefyd fel benthycia mewnol). O ystyried pob un o'r ffactorau hynny yn ei dro:

	<u>2023/24</u> <u>Amcangyfrif</u> <u>£m</u>	<u>2024/25</u> <u>Amcangyfrif</u> <u>£m</u>	<u>2025/26</u> <u>Amcangyfrif</u> <u>£m</u>
a) <u>Effaith y Rhaglen Gyfalaf a'r Cyllidebau Refeniw diweddaraf</u>			
Benthycia â Chymorth Llywodraeth Cymru	2.9	2.9	2.9
Coastal Protection Scheme - WG	17.9	2.5	-
Supported Prudential Borrowing			
Taliadau dyledion statudol a roddwyd o'r neilltu (MRP)	(1.4)	(1.5)	(1.6)
Amcangyfrif o'r newid yn y cronfeydd wrth gefn a'r balansau	10.7	1.5	0.6
Amcangyfrif o'r gofynion cyllido	29.2	5.4	1.9
b) <u>Effaith y dyledion sy'n aeddfedu</u>			
Dyled aeddfedu PWLB yn aeddfedu	-	3.0	-
Amcangyfrif o'r gofynion cyllido	-	3.0	-
c) <u>Effaith Sefyllfa'r Benthyciadau Mewnol</u>			
	<u>31/03/24</u>	<u>31/03/25</u>	<u>31/03/26</u>
<i>Amcangyfrif o'r Gofynion Cyllid Cyfalaf</i>	156.5	160.4	161.7
<i>Amcangyfrif o'r Benthyciadau Allanol Gros</i>	137.0	144.3	149.3
<i>Amcangyfrif o'r Gwahaniaeth</i>	19.5	16.1	12.4
Gostyngiad mewn Benthycia Mewnol	-	2.0	3.0
AMCANGYFRIF O GYFANSWM y gofynion cyllido	29.2	10.4	4.9

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod posibilrwydd y bydd angen benthycia oddeutu £44.5m dros y tair blynedd nesaf. Y prif beth sy'n gyrru hyn yw'r benthyciad ariannol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Diogelu'r Arfordir (£19.5m yw'r amcangyfrif diweddaraf) ar y cyd â dyled PWLB yn aeddfedu (£3.0m yn 2024/25) ynghyd ag adolygu benthycia mewnol yn barhaus i sicrhau nad yw'n mynd yn rhy sylweddol.

6. RHAGOLYGN Y CYFRADDAU LLOG

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 4.0% ar ôl iddi gael ei chodi'n sylweddol yn 2022 ar ôl iddi gyrraedd lefelau hanesyddol o isel – 0.1% – yn ystod pandemig Covid-19. Yn y tabl isod mae rhagolygon ymgynghorydd trysorlys y Cyngor parthed cyfraddau llog ar hyn o bryd. Mae'r rhagolygon yn disgwyl i'r Gyfradd Banc barhau i godi hyd at 4.5% yn ystod 2023 a gostwng ychydig wedi hynny. Mae'n faes cyfnewidiol ac mae'r rhagolygon hyn yn debygol o newid.

Gwasanaethau Ased Link: Cyfradd Llog a ragwelir								
	Mawrth 23	Mehefin 23	Medi 23	Rhagfyr 23	Marwrth 24	Mehefin 24	Medi 24	Rhagfyr 24
Cyfradd Banc	4.25%	4.50%	4.50%	4.50%	4.00%	3.75%	3.50%	3.25%

Cafodd y rhagolygon uchod eu diweddarau ar 19 Rhagfyr ac maent yn adlewyrchu barn ein ymgynghorwyr trysorlys y bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn eiddgar i ddangos ei awydd i ostwng chwyddiant drwy ragor o godiadau yn y gyfradd llog.

Rhagwelir y bydd Banc Lloegr yn awyddus i lacio polisi ariannol pan fydd y gwaethaf o'r pwysau chwyddiant y tu ôl i ni – ond bydd angen i'r amseru fod yn graff: o dorri yn rhy fuan, mae'n ddigon posib y bydd pwysau chwyddiant yn parhau; o dorri'n rhy hwyr, gellir ymestyn unrhyw gwmp neu ddirwasgiad.

Ymddengys fod mesuriad llog y Mynegai Prisiau Defnyddwyr wedi cyrraedd ei anterth – 11.1% – yn Chwarter 4 2022. Er y pwysau o ran costau byw, bydd y Banc eisiau gweld tystiolaeth nad yw cyflogau'n codi a chodi mewn marchnad lafur dynn iawn.

Yn ystod y misoedd sydd i ddod bydd y rhagolygon yn cael eu llywio nid yn unig gan ddatganiadau ac esboniadau'r MPC ynghylch data economaidd a'i bolisïau ariannol, a gan y Llywodraeth ynghylch ei pholisïau cyllidol, ond hefyd gan y gwrthdaro parhaus rhwng Rwsia ac Wcráin.

7. Y STRATEGAETH FENTHYCA

Mae rhagolygon Link ar gyfer cyfraddau benthycia (ar ôl ystyried gostyngiad cyfraddau PWLB (0.20%) fel a ganlyn:

Gwasanaethau Ased Link: Cyfradd Llog a ragwelwyd								
	Mawrth 23	Mehefin 23	Medi 23	Rhagfyr 23	Marwrth 24	Mehefin 24	Medi 24	Rhagfyr 24
Cyfradd 5 mlynedd PWLB	4.20%	4.20%	4.10%	4.00%	3.90%	3.80%	3.60%	3.50%
Cyfradd 10 mlynedd PWLB	4.40%	4.40%	4.30%	4.10%	4.00%	3.90%	3.80%	3.60%
Cyfradd 25 mlynedd PWLB	4.60%	4.60%	4.50%	4.40%	4.20%	4.10%	4.00%	3.90%
Cyfradd 50 mlynedd PWLB	4.30%	4.30%	4.20%	4.10%	3.90%	3.80%	3.70%	3.60%

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn tanfenthg oherwydd ei fod yn defnyddio benthyciadau mewnlol yn lle benthyciadau allanol. Yn ymarferol, mae'r angen llawn am fenthyciadau cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ac eithrio Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill) yn ffigur uwch nag union ddyled benthyciadau allanol y Cyngor fel y gwelir yn y tabl yn Adran 5c). Mae'r strategaeth hon yn un ddarbodus ar hyn o bryd gan fod disgwyl i gyfraddau benthg tymor canolig a hirdymor ostwng unwaith yr eir i'r afael â'r pryderon presennol o ran chwyddiant, a hynny drwy bolisi ariannol mwy tynn yn y tymor byr.

O ystyried y ffactorau hyn oll, yn ogystal â'r amcangyfrif o angen y Cyngor am gyllid sydd yn Adran 5, bydd strategaeth fenthg arfaethedig y Cyngor yn ystyried benthyciadau newydd trwy ystyried y canlynol:

- Benthyciadau newydd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) (gan ystyried siâp y gromlin elw a'r proffil cyfredol o ran aeddfedrwydd y dyledion) er mwyn ateb yr amcangyfrif o'r angen i fenthg sydd wedi ei nodi.
- Benthyciadau marchnad hirdymor ar gyfradd sefydlog (lle mae'r cyfraddau'n is o lawer na chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus am y cyfnod aeddfedu cyfatebol), ar yr amod bod cydbwysedd priodol i'w gael rhwng dyledion y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r farchnad drwyddi draw yn y portffolio dyledion.
- Gellid defnyddio benthyciadau dros dro neu dymor byr gan awdurdodau lleol eraill neu'r marchnadoedd arian am hyd at 5 mlynedd
- Mae'n bosib yr ystyrir hefyd yr Asiantaeth Bondiau Bwrdeistrefol.

Ni wnaiff y Cyngor fenthg mwy na'r hyn y bydd arno ei angen, nac ychwaith fenthg ymlaen llaw, er mwyn gwneud elw o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthg yn unig. Byddai angen i unrhyw benderfyniad i fenthg ymlaen llaw cyn i'r angen godi fod yn unol â'r Amcangyfrifon o'r Anghenion Cyllid Cyfalaf cymeradwy (un o'r Dangosyddion Darbodus) ac fe gaiff ei ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian, y gall y Cyngor sicrhau diogelwch y cyllid hwnnw ac y gall fforddio'r 'costau cario' tymor byr.

O ystyried hyn oll, bydd angen arfer gofal o ran Rheoli'r Trysorlys yn 2023/24. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad o ran cyfraddau llog a bydd yn cymryd agwedd bragmataidd wrth i amgylchiadau newid, a bydd yn rhoi cyfrif am gyngor

ymgynghorwyr allanol y Cyngor parthed y Trysorlys ac yn adrodd unrhyw benderfyniadau perthnasol gerbron y Cabinet y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny.

8. AILDREFNU DYLEDION

Prin yw'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ei hun yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae hefyd yn annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu ad-dalu unrhyw ddyledion pellach cyn pryd, oni fyddai hynny'n rhan o drefniadau i aildrefnu dyledion. Fodd bynnag, petai cyfleoedd yn codi i ailstrwythuro byddai'r rheiny'n cael eu hystyried yn ofalus a byddai'r rhesymau dros aildrefnu o unrhyw fath yn cynnwys:

- creu arbedion ariannol a / neu arbedion llif arian gostyngol;
- helpu i gyflawni'r strategaeth fenthycyca a amlinellir uchod; a
- gwella balans y portffolio (e.e. y proffil aeddfedu)

9. Y STRATEGAETH FUDDSODDI

9.1 Trosolwg

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, Côt Ymarfer a Nodiadau Canllaw CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a Thraws-sectorau 2021, a Nodiadau Canllaw CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2021.

Mae Llywodraeth Cymru a CIPFA wedi ymestyn ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn unig â buddsoddiadau'r Trysorlys (ariannol), sef y rhai sy'n cael eu rheoli gan y tîm rheoli'r trysorlys.

Dyma flaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth:

- Diogelwch y cyfalaf
- Hylifedd y buddsoddiadau.
- Arenillion (*yield*)

Hefyd bydd y Cyngor yn ceisio cael yr elw gorau posib ar ei fuddsoddiadau yn gymesur â'r diogelwch a'r hylifedd priodol. Mae awydd y Cyngor am risg yn isel er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei fuddsoddiadau. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol ystyrir ei bod yn briodol cadw buddsoddiadau yn rhai tymor byr rhag ofn y bydd angen am lif arian. Serch hynny, lle bo'n briodol bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y gwerth a geir mewn cyfnodau buddsoddi o hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol uchel eu sgôr.

Mae benthyg arian dim ond er mwyn buddsoddi a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor yn ymgymryd â gweithgaredd o'r fath.

Mae incwm buddsoddi cyllideb refeniw 2023/24 wedi cynyddu gan £1m o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraddau llog ac mae'n rhan o ddull y Cyngor o 'Wneud Pethau'n Wahanol' i helpu i gydbwysu'r gyllideb.

9.2 Polisi Teilyngdod Credyd

Mae'r Swyddog Adran 151 yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link. Mae'r gwasanaeth hwnnw'n defnyddio dull modelu soffistigedig ac mae statysau credyd gan y tair asiantaeth sy'n gosod statysau credyd - Fitch, Moodys a Standard & Poors - yn greiddiol iddo. Fodd bynnag, nid yw'n dibynnu'n llwyr ar statws credyd cyfredol y gwahanol bartion, mae'n defnyddio'r wybodaeth ganlynol hefyd:

- Gwyllo credyd a rhagolygon credyd gan yr asiantaethau statws credyd
- Amrediadau Cytundebau Ffeirio Credyd (CDS) er mwyn rhoi rhybudd mewn da bryd o newidiadau tebygol mewn statws credyd
- Statysau sofran er mwyn dewis partion i gontract o blith y gwledydd mwyaf dibynadwy yn unig

Mae'r dull hwn o fodolu'n cyfuno statysau credyd, gwyllo credyd, rhagolygon credyd ac amrediadau Cytundebau Ffeirio Credyd (CDS) mewn system sgorio gytbwys a'r canlyniad yw cyfres o fandiau sydd wedi eu codio yn ôl lliwiau. Mae'r bandiau hynny'n dangos teilyngdod credyd cymharol y partion i gontract ac maent yn awgrymu uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad. Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfnodau uchafsymiol tebyg i'r rhai a awgrymir gan fethodoleg safonol Link a, heblaw am gadw buddsoddiadau sydd o dan 1 flwyddyn o hyd.

<u>Band</u> <u>Cyfnod</u>	<u>Cyfnod</u> <u>hiraf</u> <u>arfaethedig</u> <u>Link's</u>	<u>Cyfnod</u> <u>arfaethedig</u> <u>y Cyngor</u>
Melyn	5 mlynedd	1 flwyddyn
Piws	2 flynedd	1 flwyddyn
Glas	1 flwyddyn	1 flwyddyn
Oren	1 flwyddyn	1 flwyddyn
Coch	6 mis	6 mis 100
Gwyrdd	100 niwrnod Nis	niwrnod Nis
Dim lliw	defnyddir	defnyddir

yn gymwys i fanciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu gwladoli'n rhannol/yn llawn

Caiff pob statws credyd ei fonitro bob wythnos, ac fe hysbysir y Cyngor am newidiadau yn statysau pob un o'r tair asiantaeth trwy wasanaeth teilyngdod credyd Link's, yn ogystal â bwletin wythnosol o statysau credyd cyfredol pob parti i gontract a bandiau cyfnodau. Pe bai rhyw israddio neu'i gilydd yn peri bod parti i gontract/cynllun buddsoddi yn methu â chyflawni meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni wneir defnydd pellach arno i wneud buddsoddiadau newydd. Ar adegau yn y gorffennol mae Link's wedi gosod lliw gwyrdd yn lliw diodyn ar bob parti i gontract, ac mae hwnnw'n nodi cyfnod benthycu uchaf o dri mis. O ran eglurder, os digwydd hynny eto, bydd y Cyngor yn ystyried cod lliw'r parti cyn gosod lliw diodyn, er mwyn penderfynu a yw'r parti i gontract yn cyflawni meini prawf y statws credyd cymeradwy a welir yn Atodiad B: Anecs 1 ac yna defnyddir y cyfnod uchaf o dri mis y mae Link's yn ei awgrymu ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, ni ddibynnir yn llwyr ar wasanaeth teilyngdod credyd allanol Link's; bydd y Swyddog Adran 151 hefyd yn defnyddio data/gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth ynghylch cymorth y llywodraeth i'r banciau a statws credyd cymorth y llywodraeth.

9.3 Gwrthbartïon Cyfredol

O ran y gwrthbartïon a ddefnyddir fel rhan o Strategaeth Fuddsoddi gyfredol, yn gwyno yr ydym yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dim buddsoddiadau am fwy na blwyddyn
- Dim buddsoddiadau gyda phartïon i gontract nad ydynt yn cyflawni meini prawf sylfaenol statws credyd a ddiffinnir yn 'Wyrdd' gan *Link*
- Rhestr sefydlog o bartïon (yn amodol ar gyflawni'r meini prawf sy'n ymwneud â statws credyd): Banc Barclays, Grŵp Bancio National Westminster gan gynnwys Natwest Markets plc, Grŵp Bancio Lloyds gan gynnwys Lloyds Bank Corporate Markets plc, HSBC, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, Santander UK, Royal Bank of Scotland, Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cymdeithas Adeiladu Leeds, Cymdeithas Adeiladu Yorkshire, Cymdeithas Adeiladu Skipton, Banc Standard Chartered, Banc Rhyngwladol Goldman Sachs, grŵp Bank of Scotland a chyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) Llywodraeth y DU.

Gan roi ystyriaeth lawn i'r blaenoriaethau o ran buddsoddi sef diogelwch, hylifedd ac arenillion, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad am wrthbartïon buddsoddi a chynhyrchion buddsoddi a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r gymdeithas. Ar hyn o bryd, ceir nifer o anghysonderau wrth asesu rhinweddau gwrthbartïon o ran yr amgylchedd, materion cymdeithasol a threfniadau llywodraethu ac nid oes yna system safonol i bwysu a mesur y rhinweddau hyn. Serch hynny, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'n hymgyngorwyr i nodi gwrthbartïon a chynhyrchion buddsoddi priodol.

9.4 Strategaeth Arfaethedig 2023/24

Wrth wneud buddsoddiadau, cyfeirir at y balans craidd a'r gofynion o ran llif arian a fydd, yn gyffredinol, yn bolisi gweithredol o fuddsoddi am gyfnodau hyd at 3 mis. Fodd bynnag, os bydd cyllid dros ben, yna gellid gwneud buddsoddiadau am gyfnodau hyd at flwyddyn. Gwneir hynny drwy gymryd cyngor gan ymgyngorwyr allanol y Cyngor yn ôl y gofyn, ystyried amgylchiadau cyfredol y farchnad, a sicrhau bod pob gwrthbarti a ddefnyddir yn ymddangos ar y Rhestr o Wrthbartïon Cymeradwy sydd yn Atodiad B (Anecs 1) ac yn cyflawni'r meini prawf sydd wedi eu pennu o ran statws credyd.

Mae rhestr gyflawn o offerynnau buddsoddi arfaethedig 2023/24 yn Atodiad B. Caiff terfynau'r gwrthbartïon eu hadolygu'n rheolaidd ac fe gaiff unrhyw newidiadau eu hawdurdodi gan y Swyddog Adran 151. Mae'r rhestr ddiweddaraf o wrthbartïon arfaethedig i'w gweld yn Anecs 1 Atodiad B. Hefyd ni ragwelir y byddwn yn defnyddio Rheolwr Cronfa Allanol, ac eithrio i brynu Giltiau'r Llywodraeth a/neu Filiau'r Trysorlys.

10. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor gontract â Barclays i ddarparu gwasanaethau bancio fydd yn para tan 31/03/2024.

11. POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Mae Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24 i'w weld yn Atodiad C ac mae'n nodi bod y Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw presennol yn parhau.

12. GWYBODAETH A SGILIAU

Mae Côt CIPFA yn mynnu bod swyddog adran 151 yn sicrhau bod Aelodau yn cael hyfforddiant digonol ynghylch rheoli'r trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Aelodau sy'n gyfrifol am graffu. Mynychodd yr Aelodau ddigwyddiad 'Rheoli'r Trysorlys – Hyfforddiant i Aelodau' ar 8 Tachwedd 2022. Cyflwynwyd yr hyfforddiant yma gan ein ymgynghorwyr ar reoli'r trysorlys, Link Treasury Solutions Ltd.

Mae anghenion hyfforddiant y swyddogion sy'n rheoli'r trysorlys hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr Gwybodaeth a Sgiliau sy'n nodi pob rôl sy'n gysylltiedig â swyddogaeth y Trysorlys gan nodi'r cymwyseddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob rôl, cofnodi unrhyw hyfforddiant a fynychwyd gan swyddogion ynghyd â'u gofynion hyfforddi at y dyfodol.

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei Do gwblhau? Os na, esboniwch pam

Crynodeb:

Hirdymor: Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r cyngor yn rheoli ei arian parod, ei ddyledion a'i fuddsoddiadau yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.

Integreiddio: Amherthnasol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Cydweithio: Gyda'n Darparwyr Bancio Corfforaethol (Barclays), ein Hymgyngorwyr Trysorlys a'r rhestr o bartion i gontract a nodwyd yn y strategaeth.

Cynnwys: Amherthnasol

Atal: Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y cyngor yn rheoli ei adnoddau arian parod mewn modd rhagweithiol.

Argymhellion:

Argymhellir bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad gan wneud y canlynol:

- a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiadau ar gyfer Benthycu a Buddsoddi;
- b) cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B;

- c) cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw fel y'i nodir yn Atodiad C; a
- d) dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi yn ystod y flwyddyn;

Hefyd, dylai'r Cabinet argymhell bod y Cyngor Llawn yn gwneud y canlynol:

- e) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycu a Buddsoddi 2023/24; a
- f) cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.

Rheswm dros y penderfyniad:	Gosod Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24
Trosolwg a Chraffu:	I'w ystyried
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24
Amcanion Strategol:	Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r diben o ddarparu gwasanaethau sy'n gwella ac sy'n cyflawni anghenion dinasyddion Ceredigion
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Cyllid: Incwm buddsoddi/llog allanol a dalwyd
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad A: Dangosyddion Darbodus sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys Atodiad B: Atodlen Buddsoddi Atodiad C: Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd
Dyddiad:	31/01/2023

Dangosyddion Darbodus o ran Rheoli'r Trysorlys**Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

I sicrhau bod dyled yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfalaf yn unig yn y tymor canolig, dylai awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r ddyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Yn ôl y Swyddog Adran 151, ni chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster o ran bodloni'r gofyniad hwn yn 2021/22 ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf 3 blynedd.

Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol

	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	131	155	163	168
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	7	7	12	12
Cyfanswm	138	162	175	180

Terfyn gweithredol ar gyfer dyled allanol

	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	125	149	157	162
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	6	6	11	11
Cyfanswm	131	155	168	173

Dyled allanol wirioneddol

Dyled allanol wirioneddol y Cyngor ar 31/03/2022 oedd £121.6m (a oedd yn cynnwys Benthyca Allanol o £115.6m a Rhwymedigaethau Hirdymor o £6.0m).

Strwythur aeddfedu benthycia		
	Terfyn uchaf	Terfyn isaf
Llai na 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a throsodd	95%	25%
<u>Is-gategori 10 mlynedd a throsodd</u>		
50 mlynedd a throsodd	20%	0%

Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifysymiau a fuddsoddir am fwy na blwyddyn			
2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
£2.5m	£2.5m	£2.5m	£2.5m


Meincnod Dyledion

Dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2023/24 yw'r Meincnod Dyledion. I bob pwrpas, y Meincnod Dyledion yw Benthyciadau Net Gofynnol yr awdurdod lleol ynghyd â lwfans ar gyfer hylifedd arian. Ar ei ffurf symlaf, fe'i cyfrifir drwy dynnu swm yr adnoddau buddsoddiadwy sydd ar gael ar y fantolen (cronfeydd wrth gefn, balansau llif arian) o swm y ddyled allanol sydd yn weddill, ac yna adio isafswm y buddsoddiadau sydd eu hangen i reoli'r llif arian parod o ddydd i ddydd.

Mae pedair elfen i'r Meincnod Dyledion: -

- Y ddyled bresennol sy'n weddill o ran benthyciadau: benthyciadau presennol yr Awdurdod fydd yn parhau yn weddill yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- CFR (Gofyniad Cyllido Cyfalaf) y benthyciadau: fe'i cyfrifir yn unol â'r diffiniad o fenthyciadau CFR yn y Côt Darbodus ac fe'i defnyddir i wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a gynllunnir.
- Y Gofyniad o ran benthyciadau net: bydd hwn yn dangos dyled gros yr Awdurdod o ran benthyciadau, namyn y buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy, yr MRP a gynllunnir ac unrhyw lif arian mawr a ragwelir.
- Meincnod Dyledion (y gofyniad gros o ran benthyciadau): mae hyn y gyfystyr â'r gofyniad net o ran benthyciadau ac ychwanegu lwfans ar gyfer hylifedd tymor byr.

Tudalen 115



ATODLEN BUDDSODDI

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd 'uchel'	Diogelwch / Sgôr Gredyd 'Uchel' Isaf (Fitch neu gyfatebol)	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf
--------------------	--	--	---------------------------------	--	---------------------------------------	--------------------------------------	------------------------

BUDDSODDIADAU PENODEDIG (Rhaid i'r holl fuddsoddiadau a restrir isod fod mewn sterling a rhaid nad ydynt yn gyfalaf benthyciad na chyfranddaliad)

Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y DU – Cyfleuster Adneuo'r Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF)	Diderfyn	Diderfyn	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol	6 mis (Polisi DMO Presennol)	
Banciau sydd wedi'u gwladoli'n llwyr neu'n rhannol gan Lywodraeth y DU (e.e. Northern Rock)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Lliw glas ym mandiau cyfnodol <i>Link</i>	Tymor byr F2	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn	
Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw gyda Llywodraeth y DU neu gydag awdurdodau lleol (fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003)	Diderfyn ar gyfer Llyw. y DU, 1m fesul ALI	Diderfyn	Amherthnasol	Diogelwch uchel, ond nid oes gan yr Awdurdodau Lleol sgôr gredyd.	Ydyn	Mewnol	Llywodraeth y DU : blwyddyn Awdurdodau Lleol: 90 diwrnod gydag isafswm o 180 o ddiwrnodau rhwng bob buddsoddiad	
Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw gyda sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Melyn, Porffor, Oren, Coch neu Wyrdd ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr	A-F1	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn ar gyfer Melyn, Porffor ac Oren 6 mis ar gyfer Coch 100 diwrnod ar gyfer Gwyrdd
Tystysgrifau Adneuron a roddir gan sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu) (<i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i>)	£2.5m	£2.5m	Melyn, Porffor, Oren neu Goch ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr	A-F1	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
Giltiau Llywodraeth y DU (<i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i>)	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn	
Biliau'r Trysorlys (<i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i>)	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn	

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf		
					Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd
Cronfeydd Hylifedd / Marchnad Arian y Llywodraeth – Nid oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedu a gellir cael mynediad atynt ar yr un diwrnod neu drwy roi diwrnod o rybudd fel rheol	£2m	£2m	AAA	Sgôr gredyd uchaf	Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd

* Troednodyn – Cyn unrhyw droshaenu byrdymor

BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG							
Cronfeydd Eiddo	£2.5m	£2.5m	Na	Ystyrir y cronfeydd yma'n wariant cyfalaf. Cymerir diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys cyngor oddi wrth ymgynghorwyr Trysorlys Allanol y Cyngor cyn ymgymryd â buddsoddiad o'r fath .	Mae'n bosib na phenderfynir ar y cyfnod buddsoddi ar y cychwyn fodd bynnag bydd yn ddibynnol ar lif arian a gofynion hylifedd		

Terfyn penodedig buddsoddiad unigol fesul Grŵp Bancio	Terfyn penodedig y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd (Ar sail bandiau cyfnodol Link)	Rhestr sefydlog o wrthbartïon penodol (caiff ei diweddarau'n gyson yng ngoleuni newidiadau i sgoriau credyd ac o ran bodloni'r meini prawf sgoriau credyd)
£7m	£7m	GLAS neu GOCH	<p><u>Wedi'u gwladoli'n rhannol neu'n llwyr gan Lywodraeth y DU</u> Natwest Group plc gan gynnwys; National Westminster Bank plc (gan gynnwys cyfrif ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd') Royal Bank of Scotland Plc NatWest Markets Plc (NRFB)</p>
£6m	£25m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH	<p><u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU(1):</u> Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio y DU / Cymdeithas Adeiladu (2) os yw eu statws yn newid o WYRDD i GOCH neu OREN neu PORFFOR neu FELYN plws HSBC Bank Plc Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd') Cymdeithas Adeiladu Nationwide Cymdeithas Adeiladu Coventry Cymdeithas Adeiladu Skipton Lloyds Banking Group, gan gynnwys; Lloyds Bank Plc Lloyds Bank Corporate Markets (NRFB) Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd')</p>
£4m	£10m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><u>Grŵp Bancio â rhiant-gwmni tramor:</u> Santander UK plc (Gan gynnwys cyfrifon galw mynediad uniongyrchol) Standard Chartered Bank Banc Rhyngwladol Goldman Sachs</p>
£3m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (2):</u> Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (1) os bydd ei statws yn newid o GOCH i WYRDD, yn ogystal â Cymdeithas Adeiladu Yorkshire Cymdeithas Adeiladu Leeds</p>
£9m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p>Barclays Bank Plc * – Terfyn ar gyfer balansau dros nos ar gyfrifon banc corfforaethol</p>
	£3m		<p>Barclays Bank Plc * –Terfyn ar gyfer adneuon tymor penodol a mynediad uniongyrchol (gan gynnwys Cyfrifon Cadw Gwyrdd) Terfyn Cyfrifon Galw ar gyfer balansau cyfrifon galw.</p>

• Troednodyn – Barclays sy'n darparu gwasanaethau bancio i'r Cyngor ar hyn o bryd

Datganiad Polisi ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw 2023/241. Egwyddorion cyffredinol

- a) Mae Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gan ddefnyddio un o'r opsiynau a amlinellir yn y canllawiau, yn ogystal â chyflwyno opsiwn arall a ategir gan yr egwyddor darpariaeth ddarbodus.
- b) Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig oni bai fod Llywodraeth Cymru'n mynnu neu'n penderfynu fel arall. I'r graddau nad yw'r gwariant yn creu ased a'i fod yn wariant y mae cyfnodau oes amcangyfrifedig y cyfeirir atynt yn y canllawiau'n berthnasol iddo, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes defnyddiol ac isafswm darpariaeth refeniw ddarbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y canllawiau'n briodol.
- c) Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor ag ased unigol, caiff oes ased ei hasesu ar y sail sy'n adlewyrchu cyfnod disgwylidig y budd sy'n deillio o'r gwariant yn y modd mwyaf rhesymol. Hefyd, pa fath bynnag o wariant sydd o dan sylw, bydd yn cael ei grwpio mewn modd sy'n adlewyrchu natur y brif elfen o wariant ac ni fydd ond yn cael ei wahanu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes ddefnyddiol economaidd wahanol iawn i'w gilydd.

2. Dulliau o gyfrifo isafswm darpariaeth refeniw (MRP)

- a) Bydd y gyfran fwyaf o MRP ar gyfer 2023/24 yn gysylltiedig â rhwymedigaethau dyledion mwy hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 2008 neu ar ôl 2008 yn achos Benthycy â Chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LIC). Darperir ar gyfer y rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n gysylltiedig â dyledion cyn 2008 a Benthycy â Chymorth ar ôl 2008 a ariennir gan LIC drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau LIC 2018 a chymhwyso Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 4.20% (cyfartaledd cyfradd benthycy y benthyciadau sy'n weddill ar 01/04/21) dros gyfnod o 44 blynedd, gan gychwyn ar 01/04/2021.
- b) Gan fod Benthycy â Chymorth newydd pellach yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, darperir hefyd ar gyfer rhwymedigaeth MRP pob cyfran newydd o Benthycy â Chymorth drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru ac chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- c) Bydd cyfran sylweddol o'r MRP ar gyfer 2023/24 yn ymwneud â Benthycy Darbodus Digymorth ers 2008 a ddangosir o fewn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Darperir rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n ymwneud â Benthycy Digymorth wedi 2008, gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfradd llog gyfartalog bwysedig y benthyciad dan sylw) dros gyfnod o 39 o flynyddoedd, gan ddechrau ar 01/04/2021.
- d) Wrth ddefnyddio mwy o'r Benthyciad Darbodus Digymorth yn Rhaglen Gyfalaf, bydd y rhwymedigaeth MRP a ddangosir yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn cael ei godi dros gyfnod sy'n gyfwerth ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau Llywodraeth Cymru 2018 a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- e) Pan fyddwn yn ymgymryd â Benthycy Dros Dro yn lle derbyniadau cyfalaf a fydd yn dod i law yn y dyfodol (e.e. benthyciadau cyllid ad-daladwy LIC neu Benthycy Darbodus Digymorth dros dro) byddwn yn parhau â'r egwyddor o beidio â chodi MRP e.e. pan fyddwn yn aros i dderbyniadau cyfalaf ddod i law ar ôl gwerthu asedau diangen.
- f) Pan fydd ased yn cael ei hadeiladu, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â chodi MRP hyd nes y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r gwariant cyfalaf yn cael ei wneud ac, yn achos ased newydd, pan fo'r ased yn dechrau cael ei ddefnyddio.

Tudalen 120

- g) Codir MRP ar drefniadau credyd PFI dros gyfnod sy'n cyfateb i amcangyfrif oes ddefnyddiol a gymhwysir i'r ased gan ddefnyddio Dull Blwydd-dal.
- h) Pan fydd MRP yn gysylltiedig â phroffil a bennwyd ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â threfniant credyd (e.e. Prydles Gyllidol) bydd y cyfrifiad MRP yn cydweddu â'r proffil ad-dalu pwrpasol perthnasol.
- i) Gall y Cyngor ddewis gwneud cyfraniadau MRP gwirfoddol yn ychwanegol at y cyfrifiadau MRP uchod ar unrhyw adeg. E.e. Gall y Cyngor ymdrin â chyfraniadau MRP gwirfoddol fel darpariaeth 'ymlaen llaw' (sy'n cael effaith debyg i ad-dalu dyled yn gynnar) a gall ailgyfrifo taliadau MRP yn y dyfodol yn unol â hynny.

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cyngor****Dyddiad y cyfarfod:****Teitl: Cyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad – Recriwtio Prif Swyddogion****Pwrpas yr adroddiad: Cyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad ar gyfer Rolau Prif Swyddogion sy'n anodd eu llenwi****Er: Penderfyniad****Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet: Y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, Pobl a Threfniadaeth****Cefndir**

Mae swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal yn wag ar hyn o bryd gyda chyfrifoldebau'r rôl yn cael eu cyflawni o dan drefniant asiantaeth. Dim ond nifer fach iawn o geisiadau y mae ymgyrch recriwtio ddiweddar wedi'u denu ac o ganlyniad penderfynodd y Pwyllgor Llunio Rhestr Fer ail-hysbysebu'r rôl gyda'r bwriad o ddenu rhagor o ymgeiswyr â chymwysterau addas.

Mae'r dirwedd recriwtio heriol ar draws y dirwedd gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol wedi'i chrybwyll yn eang.

Am y flwyddyn gyfredol, uchafswm cyflog rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal yw £87,115 ond o gymharu â'n cymdogion rhanbarthol mae hyn yn sylweddol is na rolau cyfatebol sydd â chylch gorchwyl Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Cydnabyddir ei bod yn anodd gwneud cymariaethau tebyg am debyg oherwydd bod y cyfrifoldebau o dan bob swydd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. O safbwynt recriwtio fodd bynnag mae'n berthnasol gan y bydd yn ystyriaeth i ddarpar ymgeiswyr. Yng Ngwynedd y cyflog yw £104,288; ym Mhowys mae'n £115,847; yn Sir Benfro mae'n £128,254; ac yn Sir Gaerfyrddin mae'n £135,621.

O ran awdurdodau lleol o boblogaeth debyg i Geredigion, mae deiliad swydd cylch gwaith Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael uchafswm cyflog o £85,486 ym Mlaenau Gwent; £91,341 yn Sir Fynwy; £92,345 yn Ynys Môn; a £96,150 yn Nhorfaen;

Cynnig

Er mwyn gwneud y cyflog yn fwy deniadol i ddarpar ymgeiswyr, cynigir bod Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad yn cael ei gyflwyno i gynyddu'r cyflog a hysbysebir ar ystod uwch nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Defnyddir taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad fel arf recriwtio neu gadw lle mae bwlch mewn sgiliau yn y farchnad swyddi, yn lleol neu'n genedlaethol, neu oherwydd bod cyfradd y

Tudalen 122

farchnad ar gyfer set sgiliau benodol yn uwch na'r hyn a bennir gan ein strwythur gwerthuso swyddi a graddio cyflogau. Yn y sefyllfa hon mae'r ddau ddatganiad hyn yn berthnasol.

Mae Polisi Cyflogau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw daliad atodol ar sail grymoedd y farchnad a delir i rôl Prif Swyddog gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Y cynnig yw cynnwys taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad o hyd at £10,385, yn ychwanegol at y raddfa gyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar gyfer y broses recriwtio hon, bydd hyn yn arwain at uchafswm cyflog a thaliad atodol a hysbysebair o £97,500.

Nid yw taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad yn contractiol ond byddai disgwyl iddo aros yn ei le cyhyd â bod cyfradd y farchnad yn parhau i fod yn uwch na lefel y cyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam	Nac oes. Nid yw cyflwyno'r lwfansau hyn yn newid polisi na darpariaeth gwasanaethau.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	
Argymhelliad:		Cymeradwyo cyflwyno taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal.
Rheswm dros y penderfyniad:	y	Denu ymgeiswyr â chymwysterau addas i swydd wag Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal.
Trosolwg a Chraffu Fframwaith Polisi:		Heb ei ystyried Polisi Cyflogau
Amcanion Llesiant Corfforaethol:		Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach Rhoi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Dysgu ym mhob Oed
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:		I'w cwrdd o fewn cyllideb y Gwasanaeth
Goblygiadau Cyfreithiol:		Mae adran 144 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benodi swyddog, a elwir yn gyfarwyddwr gwasanaethau

Tudalen 123

cymdeithasol, at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Goblygiadau staffio: Fel rôl statudol, bydd methiant i benodi yn cael effaith ar strwythur arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Cyngor.

Goblygiadau eiddo / asedau: Dim

Risg(iau): Bydd methu â recriwtio i'r rôl statudol hon yn debygol o arwain at ymyrraeth gan y corff rheoleiddio perthnasol.

Pwerau Statudol:

Papurau Cefndir:

Atodiadau:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth

Swyddog Adrodd: Geraint Edwards

Dyddiad: 19/02/2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y cyfarfod: 2 Mawrth 2023

Teitl: Ymddiriedolwyr yr elusen "Gwobrau Evan Morgan"

Pwrpas yr adroddiad: Cadarnhau penodiad dau Ymddiriedolwr

Er: Penderfyniad

Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet: Amh

1. CEFNDIR

Ar y 5^{ed} o Ragfyr 1983, gwnaeth y Comisiwn Elusennau Gynllun mewn perthynas â'r elusen a elwir yn Gwobrau Evan Morgan (a adwaenir hefyd yn gynharach fel Ysgoloriaethau Evan Morgan), y mae copi ohono wedi'i atodi yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

Mae'r Cynllun yn nodi bod £977.47c o'r arian a adawyd gan Evan Morgan yn ei Ewyllys yn 1926 yn cael ei ddal fel gwaddol parhaol gan yr elusen (hy: ni ellir ei wario) a defnyddio unrhyw incwm ar gyfer y canlynol:

"Bydd yr ymddiriedolwyr yn cymhwyso incwm clir yr Elusen wrth ddyfarnu gwobrau i ddisgyblion ysgolion cynradd sir yn ardal Ceredigion, yn Sir Dyfed, sydd ar fin mynychu ysgolion uwchradd sirol yn yr ardal honno, fel cydnabyddiaeth o'u cyflawniadau academaidd y mae'n rhaid iddynt gynnwys hyfedredd yn yr ieithoedd Cymraeg a'r Saesneg a Mathemateg Elfennol."

Mae gofyn am dri Ymddiriedolwr o dan y Cynllun. Enwir yr Ymddiriedolwr cyntaf yn Gyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Dyfed sydd â'i swyddogaethau statudol bellach gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion a Phrif Swyddog Addysg.

Mae'r ddau Ymddiriedolwr arall i gael eu henwebu gan y Cyngor fel Awdurdod Addysg Lleol a gall fod angen, ond nid yw'n ofynnol iddynt fod, yn aelod o'r Cyngor.

2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn dilyn gohebu â Rhaglen Ymddiriedolaethau Adfywiol y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â'r elusen hon, mae swyddogion wedi adolygu'r elusen gan nad yw gwobrau wedi'u gwneud o dan y Cynllun ers 26/07/2005.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn dal £4,861.37c ar ran yr elusen sydd, minws y gwaddol parhaol, yn golygu y gellir defnyddio £3,883.90c ar gyfer gwobrau o dan delerau'r Cynllun elusennol.

Er bod gan y Cyngor Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau sefydledig eisoes, gall y Pwyllgor hwnnw ddim ond gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag elusennau

Ile bod y Cyngor yn unig Ymddiriedolwr, ac felly nid yw'r elusen hon yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw.

3. CAMAU NESAF

Er mwyn adfywio'r cynllun elusennol a bod mewn sefyllfa i wneud gwobrau newydd, cynigir bod y Cyngor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion i fod y ddau Ymddiriedolwr arall.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn elwa o'r indemniad cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor i Aelodau a Swyddogion, ar yr amod eu bod yn gweithredu'n onest, o fewn eu pwerau ac un yr elusen, ac mewn ffydd dda.

	A yw Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os, ddim, nodwch pam Crynodeb:	Ddim yn ofynnol
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Hirdymor:	Sicrhau penodiad Ymddiriedolwyr priodol ar ran Cyngor Sir Ceredigion i elusen Gwobrau Evan Morgan
	Cydweithio:	I gydweithio gydag Aelodau eraill y Cyngor, a'r SAC ar gyfer Ysgolion i sicrhau bod yr ardal gyfan yn cael ei chynrychioli
	Cynnwys:	Penderfynu ar ddyfarnu Gwobrau Evan Morgan yn briodol
	Atal:	Dim
	Integreiddio:	Gweithio gyda Swyddogion i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion o ran dyrannu gwobrau
Argymhelliad(au):	Cymeradwyo penodiad Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion fel y ddau Ymddiriedolwr dewisol i'r elusen a elwir yn Gwobrau Evan Morgan.	
Rhesymau dros y penderfyniad:	Sicrhau cynrychiolaeth briodol fel Ymddiriedolwyr i'r elusen Gwobrau Evan Morgan	
Trosolwg a Chraffu:	AMH	
Fframwaith Polisi:	AMH	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Yn cyfrannu at y blaenoriaethau Corfforaethol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu 	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim	

Tudalen 127

Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(au):	Dim
Pwerau Statudol:	AMH
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1 – Cynllun 05/12/1983
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu
Swyddog Adrodd:	Louise Harries - Cyfreithiwr
Dyddiad:	10/01/2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Sealed 5th December 1983.

N338(S)
83.

County - Dyfed.
Former } - Cardigan.
County }
Charity - Evan Morgan Scholarships.

L3.
525,350 A/1.

Stamp 50p

Scheme including appointment of
Trustees.

C H A R I T Y C O M M I S S I O N .

In the matter of the Charity called the Evan Morgan Scholarships, in the former County of Cardigan, in the County of Dyfed, founded by will proved at Liverpool on the 26th January 1926; and
In the matter of the Charities Act, 1960.

THE CHARITY COMMISSIONERS FOR ENGLAND AND WALES HEREBY ORDER that the following Scheme be approved and established as the Scheme for the regulation of the above-mentioned Charity:-

S C H E M E .

1. Administration of Charity. - The above-mentioned Charity and the property thereof specified in the schedule hereto and all other the property (if any) of the Charity shall be administered and managed subject to and in conformity with the provisions of this Scheme under the title of Evan Morgan Prizes by the body of Trustees hereinafter constituted.

2. Investments and cash. - Subject to any further direction of the Charity Commissioners -

- (1) All investments now or at any time belonging to the Charity not already standing in the name of the Official Custodian for Charities shall be transferred to the said Official Custodian;

(2) All sums of cash now or at any time belonging to the Charity, other than income needed for immediate working purposes, shall be invested in the name of the said Official Custodian.

TRUSTEES.

3. Trustees. - The body of Trustees shall consist when complete of three competent persons being

One Ex-officio Trustee and
Two Nominative Trustees.

4. Ex-officio Trustee. - The Ex-officio Trustee shall be the Director of Education of Dyfed County Council.

5. Nominative Trustees. - Except at first as hereinafter provided the Nominative Trustees shall be appointed by Dyfed County Council as local education authority.

(1) Each Nominative Trustee shall hold office for a term ending on the day of the appointment of his or her successor (which may be made at any time after the day next following his or her appointment on which members of the said county council ordinarily retire);

(2) Each appointment shall be made at a meeting convened and held according to the ordinary practice of the council. The chairman of the meeting shall cause the name of each person appointed to be notified forthwith to the Trustees or their clerk. The person appointed may be but need not be a member of the council.

6. First Nominative Trustees. - The following persons shall be the first Nominative Trustees and subject to the provisions hereinafter contained for determination of trusteeship shall hold office until the appointment of their respective successors as hereinbefore provided:

John Lewis James, of Glasfryn, Bronwydd Arms,
Carmarthen, Farmer, and
Richard Elwyn Morris, of Arfryn, Tanygroes,
Cardigan, Retired Company Director, both in
Dyfed.

7. Power of resignation. - Any Trustee may resign his or her trusteeship at any time by giving to his or her Co-trustees notice in writing of his or her wish to resign.

8. Accounts. - Statements of account in relation to the Charity shall be prepared and transmitted to the Commissioners in accordance with the provisions of the Charities Act, 1960, except if and in so far as the Charity is excepted by order or regulations.

9. Application of income. - (1) The Trustees shall apply the clear income of the Charity in awarding prizes to pupils of county primary schools in the District of Ceredigion, in the County of Dyfed, who are about to attend county secondary schools in that district, in recognition of their academic achievements which must include proficiency in the Welsh and English languages and Elementary Mathematics.

(2) The awards shall be in accordance with rules made from time to time by the Trustees.

10. Trustees to act jointly. - The appropriation of the benefits of the Charity shall be made by the Trustees from time to time acting jointly and not separately by any individual Trustee or Trustees.

11. Trustees not to be personally interested. - No Trustee shall receive remuneration, or be interested in the supply of work or goods, at the cost of the Charity.

12. Questions under Scheme. - Any question as to the construction of this Scheme or as to the regularity or the validity of any acts done or about to be done under this Scheme shall be determined by the Commissioners upon such application made to them for the purpose as they think sufficient.

SCHEDULE.

£977.47 ³/₄% Treasury Stock 1997 standing in the name of the Official Custodian for Charities being permanent endowment.

ETARY

29th September

raft Order

Tudalen 130

£2,068.75 cash on deposit account at the Carmarthen branch of National Westminster Bank plc being accumulations of income.

This schedule is made up to the 31st August 1983.

Sealed by Order of the Commissioners this 5th day of December 1983.

L.S.

In re
duly

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cyngor****Dyddiad y cyfarfod: 2 Mawrth 2023****Teitl: Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol****Pwrpas yr adroddiad: Rhoi gwybod i'r Cyngor am y broses ar gyfer cynnal Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol; a gofyn am gymeradwyaeth i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol Adolygiad Cymunedau****Er: Penderfyniad****Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet: Ddim yn berthnasol****Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau bod gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i gadw ei gymunedau dan arolwg a rhoi adroddiad i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ynglŷn â sut mae'n cadw ei gymunedau dan arolwg. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Cyngor wedi penodi'r Comisiwn i gynnal adolygiad o gymunedau a threfniadau etholiadol yng Ngheredigion ar ei ran.

Mae dwy elfen wahanol i adolygiad cymunedau y dylai prif gynghorau eu cynnal, sy'n ddarostyngedig i adrannau gwahanol y Ddeddf:

- Adolygiad Adran 25 - Adolygiad o ffiniau cymunedau. Dylai sicrhau bod cymunedau yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Byddai'r adolygiad hwn yn caniatáu i'r cyngor wneud mân ddiwygiadau i ffiniau a allai fod wedi dyddio o ganlyniad i ddatblygiadau tai, newidiadau yn y boblogaeth ac ati. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried unrhyw newidiadau canlyniadol sydd eu hangen i'r trefniadau etholiadol oherwydd unrhyw newidiadau i'r ffiniau a dyma'r elfen y bydd y Comisiwn yn ymgymryd â hi.
- Adolygiad Adran 31 - Adolygiad o'r trefniadau etholiadol. Nodi problemau gyda threfniadau etholiadol cynghorau cymuned/tref yn annibynnol ar unrhyw broblemau o ran ffiniau.

Cynnal yr Adolygiad o Gymunedau a'r Adolygiad Etholiadol

Nod yr adolygiad fydd sicrhau bod ffiniau cymunedau yn adlewyrchu hunaniaethau a diddordebau'r cymunedau ar draws ardal Cyngor Sir Ceredigion a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus.

Fel rhan o'r adolygiad, bydd y Comisiwn yn rhoi sylw i:

- greu, diddymu neu uno cymunedau a wardiau cymunedol

- enw'r gymuned a, lle maent wedi'u gwneud yn wardiau, enw'r wardiau cymunedol
- Lle mae newidiadau wedi'u gwneud i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r gymuned a, lle maent wedi'u gwneud yn wardiau, nifer y cynghorwyr fesul ward.

Byddai'r adolygiad yn seiliedig ar yr etholwyr ar y gofrestr newydd a gyhoeddwyd ar Ragfyr y 1^{af} 2022 a rhagolwg 5 mlynedd o ffigurau etholwyr.

Rhaid i'r adolygiad gymryd pedwar cam hanfodol:

- Cyhoedduswyd cychwynnol;
- Ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol - gofyn i'r holl rai cyfrannog ystyried ffiniau cymunedau ar hyn o bryd a chyflwyno eu barn am unrhyw newidiadau sydd eu hangen i greu cymunedau sy'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;
- Cynigion drafft (ac ymgynghoriad ynghylch y cynigion hynny) - bydd pob cyflwyniad wedyn yn cael ei ystyried, a bydd y Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft ac yn cynnal ymgynghoriad ynghylch y cynigion hynny; ac
- Argymhellion terfynol – bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedyn, os gwêl yn dda, yn gweithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.

Amserlenni

Gyda'r etholiadau llywodraeth leol nesaf wedi'u trefnu ar gyfer Mai 2027 mae nawr yn amser delfrydol i fodloni rhwymedigaeth statudol y Cyngor. Byddai unrhyw adolygiad Cymunedau hefyd yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer Adolygiad Etholiadol nesaf y Cyngor Sir.

Bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal yr Adolygiad ar ran y Cyngor, a fydd yn cymryd rhwng 15 a 18 mis o'r dechrau i'r diwedd.

Pan gytunir ar yr union amserlenni, bydd Cynghorwyr Sir yn ogystal â Chynghorwyr Tref a Chymuned yn cael eu hysbysu.

Camau nesaf

Cynhelir cyfarfodydd yn fuan gyda chynrychiolwyr o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gytuno ar amserlen ar gyfer yr Adolygiad.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu grŵp trawsbleidiol o gynghorwyr i gefnogi Adolygiad y Cymunedau i benderfynu ar Bolisi Maint y Cyngor ac i fod yn brif grŵp ar gyfer yr awdurdod lleol.

Argymhellir bod gan y Grŵp Trawsbleidiol 7 Aelod. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gydag Arweinwyr y Grwpiau sydd wedi enwebu'r Cynghorwyr canlynol i fod yn aelodau Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a'r Adolygiad Etholiadol:

Plaid Cymru	3	Cynghorydd Clive Davies Cynghorydd Eryl Evans Cynghorydd Alun Williams
Annibynnol	2	Cynghorydd Gwyn Wigley Evans Cynghorydd Rhodri Evans
Y Democratiaid Rhyddfrydol	2	Cynghorydd Elizabeth Evans Cynghorydd Paul Hinge

Bydd Polisi Maint y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod ymgynghori cyntaf gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

A oes Aseiad Effaith Amherthnasol – nid Integredig wedi'i gwblhau? Os yw'n newid i nad oes, dywedwch pam wasanaeth

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:

Hirdymor: Ddim yn berthnasol

Cydweithio: Ddim yn berthnasol

Cynnwys: Ddim yn berthnasol

Atal: Ddim yn berthnasol

Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Argymhellion:

Bod y Cyngor yn:

a) Nodi bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi'i gomisiynu i gynnal Adolygiad y Cymunedau ar ran y Cyngor;

b) Cymeradwyo nifer yr Aelodau ar Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a'r Adolygiad Etholiadol i fod yn 7;

c) Cadarnhau aelodaeth Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a'r Adolygiad Etholiadol fel a ganlyn:

- Clive Davies
- Elizabeth Evans
- Eryl Evans
- Gwyn Wigley Evans
- Rhodri Evans
- Paul Hinge
- Alun Williams.

Rhesymau dros y Galluogi'r Adolygiad o Gymunedau i gael ei gynnal yn penderfyniad: unol ag Adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Trosolwg a Chraffu: Ddim yn berthnasol


Fframwaith Polisi:

- Adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013;

Tudalen 136

- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Canllawiau i Brif Gyngorau ynglŷn â'r Adolygiad o Gymunedau;
- Cyfansoddiad y Cyngor.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Telir yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag Adolygiad y Cymunedau o gyllideb bresennol y Gwasanaethau Etholiadol. Ffi'r Comisiwn am gynnal yr adolygiad yw £13,500.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Sicrhau cydymffurfedd â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013
Goblygiadau staffio:	O fewn y gwasanaeth.
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Risg sylweddol i'r Cyngor o beidio â chynnal yr Adolygiad.
Pwerau Statudol:	Adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013
Papurau Cefndir:	- 'Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Canllawiau i Brif Gyngorau ynglŷn â'r Adolygiad o Gymunedau < https://www.cffdl.llyw.cymru/cyhoeddiadau/09-22/canllawiau-arolygon-cymunedol-2022 >
Atodiadau:	Atodiad A – Cylch Gorchwyl Sampl Eifion Evans Prif Weithredwr (Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau)
Swyddog Adrodd:	Lowri Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol a Dirprwy Swyddog Canlyniadau)
Dyddiad:	17 Chwefror 2023



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

AROLWG O DREFNIADAU CYMUNEDOL

CYLCH GORCHWYL

Cyflwyniad.....	2
Pam ydyn ni'n cynnal yr arolwg hwn.....	2
Beth yw nod yr arolwg.....	2
Beth gellir ei ystyried yn yr arolwg hwn.....	2
Pwy fydd yn cynnal yr arolwg.....	2
Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chyflwyniadau.....	2
Polisi ar Faint Cyngorau.....	3
Polisi ar Enwau Cymraeg.....	3
Amserlen yr Arolwg.....	3
Gwybodaeth Ategol.....	4

Cyflwyniad

Y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu arolygon cymunedol yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf). O dan y Ddeddf, mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd gyffredinol i fonitro trefniadau llywodraeth leol ar hyd a lled Cymru. Mae gan bob prif gyngor, fodd bynnag, ddyletswydd i fonitro'r cymunedau yn ei ardal a, lle bo'n briodol, trefniadau etholiadol y cyfryw gymunedau at ddibenion ystyried p'un ai gwneud neu argymhell newidiadau. Gwneir y newidiadau hyn drwy arolygon o ffiniau cymunedol ac arolygon o'r trefniadau etholiadol cymunedol.

Mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg o drefniadau cymunedol yn dilyn cais a dderbyniwyd gan y Prif Gyngor (y Cyngor). Cynhelir yr arolwg hwn o dan adran 26 y Ddeddf.

Y cam cyntaf yn yr arolwg yw gofyn i bob parti â buddiant ystyried y ffiniau cymunedol presennol a chyflwyno'u barnau ar unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i greu cymunedau sy'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Bydd yr holl gyflwyniadau'n cael eu hystyried wedyn, a bydd y Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft ac yn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hynny. Bydd yr holl gyflwyniadau yn cael eu hystyried wedyn, a bydd Argymhellion Terfynol yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru, os gwelant fod hynny'n briodol, yn gweithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.

Bydd yr arolwg yn dechrau yn **I'W GADARNHAU** gydag amserlen dros dro i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'w mabwysiadu yn **I'W GADARNHAU**.

Pam ydyn ni'n cynnal yr arolwg hwn?

Mae'r Comisiwn wedi derbyn cais swyddogol gan y Cyngor i adolygu'r trefniadau cymunedol ar draws ardal y prif gyngor gyda'r nod o sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol ac yn hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Beth yw nod yr arolwg?

Nod y Comisiwn yw sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaethau a buddiannau'r gymuned ar draws ardal y prif gyngor, a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus.

Fel rhan o'r arolwg, bydd y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth i:

- greu, diddymu neu uno cymunedau a wardiau cymunedol
- enw'r gymuned, a lle mae'n cynnwys wardiau, enw wardiau cymunedol
- Lle mae newidiadau wedi'u gwneud i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol, nifer y cyngorwyr sy'n cynrychioli'r gymuned a, lle mae'n cynnwys wardiau, nifer y cyngorwyr fesul ward.

Beth gellir ei ystyried yn yr arolwg hwn?

Bydd yr arolwg hwn yn edrych ar y ffiniau cymunedol ar draws ardal y prif gyngor. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau ond yn cael eu hystyried o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymunedol.

Pwy fydd yn cynnal yr arolwg hwn?

Mae'r Comisiwn wedi llunio cytundeb gyda'r prif gyngor i arfer swyddogaethau'r cyngor o dan adran 25 (5) y Ddeddf. Mae'r Comisiwn, felly, yn gyfrifol am ymgymryd â'r arolwg o dan adran 26 y Ddeddf. Pan gwblheir yr arolwg, bydd y Comisiwn yn cyflwyno argymhellion i Weinidogion

Llywodraeth Cymru. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru, os gwelant fod hynny'n briodol, yn gweithredu'r argymhellion hyn wedyn naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.

Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chyflwyniadau

Wrth gynnal yr arolwg, mae'n rhaid i'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau y mae'n barnu eu bod yn briodol i sicrhau bod unrhyw un a allai fod â diddordeb yn yr arolwg yn cael gwybod am yr arolwg ac am unrhyw gynigion neu argymhellion drafft. Mae'r Comisiwn yn ymrwymo i fodloni'r dyletswyddau hyn drwy ysgrifennu at:

- Y Prif Gyngor
- Y Cynghorau Tref a Chymuned ar draws y prif gyngor
- Yr Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli'r ardal
- Yr Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal
- Yr Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal
- Aelodau etholedig y prif gyngor
- Comisiynydd y Gymraeg
- Llywodraeth Cymru, ac
- Arolwg Ordans.

Bydd y Comisiwn yn rhoi hysbysiad swyddogol hefyd ar gamau gwahanol o'r arolwg, yn adneuo copïau o adroddiadau a dogfennau yn Swyddfa Etholiadol y Prif Gyngor ac yn rhoi dogfennau priodol ar wefan y Comisiwn.

Gellir gwneud sylwadau a chyflwyniadau yn ystod dau gam yn yr arolwg, sef wrth gynnal yr ymchwiliadau cychwynnol a'r cyfnod ymgynghori ar gynigion drafft.

Bydd yr holl sylwadau a chyflwyniadau yn cael ystyriaeth ddyladwy yn yr arolwg os bodlonir y meini prawf canlynol: -

- Mae'n rhaid i sylwadau gael eu derbyn erbyn 11.59pm ar y dyddiad cau a drefnwyd.
- Mae'n rhaid i'r holl sylwadau gael eu derbyn gydag enw a chyfeiriad sy'n dynodi pwy yw'r anfonwr. Ni fydd cyflwyniadau dienw'n cael eu derbyn, ond ni fyddwn yn cyhoeddi manylion aelodau'r cyhoedd. Bydd cyflwyniadau gan gyrrff ac unigolion cynrychioliadol, fel Cynghorwyr ac Aelodau o'r Senedd ac ati, yn cael eu henwi yn yr adroddiad.
- Pan fydd sefydliad neu unigolyn yn gwneud cyflwyniadau'n ymwneud â'r arolwg, rhaid iddynt ddangos sut y bydd naill ai cynnal y sefyllfa bresennol neu wneud newidiadau yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Polisi ar Faint Cynghorau

Cynhelir arolwg cymunedol y Comisiwn yn ddarostyngedig i adran 26 y Ddeddf, a bydd yn canolbwyntio felly ar wneud newidiadau i ffiniau i sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaethau a buddiannau'r gymuned ar draws ardal y prif gyngor, a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus. Bydd unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol ond yn cael eu gwneud pan fydd newidiadau i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol wedi'u gwneud.

Mae'r prif gyngor wedi datgan y dylai cymunedau gael eu cynrychioli gan ddim llai na **X** o gynghorwyr a dim mwy na **X** o gynghorwyr. Mae'r prif gyngor wedi datgan hefyd y dylai wardiau cymunedol gynnwys dim llai na **X** o etholwyr.

Polisi ar Enwau Cymraeg

Wrth greu unrhyw enwau newydd, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng

Nghymru. Mae'r Comisiynydd wedi cynnull Panel Safonau Enwau Lleoedd i roi argymhellion a chynghor arbenigol yn y maes hwn. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Panel yn dilyn canllawiau safoni cenedlaethol, ac mae hefyd yn rhoi ystyriaeth i ystyr, hanes a geirdarddiad yr enwau lleoedd, yn ogystal â'r defnydd ohonynt. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai gorfodol yn yr arolwg.

Amserlen yr Arolwg

Bydd yr arolwg yn dechrau yn **I'W GADARNHAU** gydag amserlen dros dro i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno yn **I'W GADARNHAU**. Byddai unrhyw newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i broses yr arolwg yn dod i rym wedyn ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf.

Cam Gweithredu	Cyfnod	Dyddiad
Cychwyn yr Arolwg		I'W GADARNHAU
Ymchwiliadau Cychwynnol	8 Wythnos	I'W GADARNHAU
Cyhoeddi'r Cynigion Drafft/ Ymgynghoriad	8 Wythnos	I'W GADARNHAU
Cyflwyno'r Argymhellion Terfynol		I'W GADARNHAU

Gwybodaeth Ategol

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys ffigurau etholwyr (a ddarparwyd gan y Prif Gyngor), map sy'n dangos y ffiniau cymunedol presennol ac arweiniad, ar wefan y Comisiwn, i'w chael ar wefan y Comisiwn.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	02/03/2023
Teitl:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio : Penodi Is-gadeirydd
Pwrpas yr adroddiad:	Sicrhau penodiad priodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Er:	Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:	Cynghorydd Matthew Vaux: Aelod Cabinet ar faterion Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir

Yn dilyn ymddiswyddiad yr Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, adroddwyd i'r Cyngor ar 20 Hydref 2022 y byddai proses recriwtio yn cael ei chynnal i benodi aelod llewyg newydd i'r pwyllgor.

O ganlyniad i'r broses recriwtio hon, penodwyd Mr Andrew Blackmore yn Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a gytunwyd gan y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2022. Bydd y penodiad am ddim mwy na dau dymor gweinyddol yn olynol (h.y. un tymor i ddechrau, gyda'r opsiwn i ymestyn i ail dymor yn 2027).

Y sefyllfa bresennol:

Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 17 Ionawr 2023, rhoddwyd ystyriaeth i'r trefniadau ar gyfer Dirprwy Gadeirydd, a chytunwyd i benodi Mr Andrew Blackmore fel Dirprwy i'r Cadeirydd gan gychwyn ar unwaith o 17 Ionawr 2023 am weddill cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mai 2024.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A yw Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os, ddim, nodwch pam <i>Crynodeb:</i> Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth. Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	Na
Argymhelliad(au):	I gadarnhau penodiad Andrew Blackmore fel Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd at fis Mai 2024.	

Tudalen 142

Rhesymau dros benderfyniad:	Mae angen yr argymhellion i sicrhau bod y penodiadau priodol ar waith, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad.
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Amherthnasol
Goblygiadau cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / ased:	Dim
Risg(au):	Dim
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 1972 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Deddf Llywodraeth ac Etholiadau (Cymru) 2021
Papurau Cefndir:	Adroddiad i'r Cyngor 20/10/2022: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s3870/Adroddiad%20-%20apwyntio%20aelod%20lleyg.pdf?LLL=1 Adroddiad i Gyngor 15/12/2022: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s4100/Adroddiad%20ar%20apwyntio%20Aelod%20Lleyg%20Annibynno%20i'r%20Pwyllgor%20Llywodraethu%20ac%20Archwilio.pdf?LLL=1 Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 17/01/2023: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s4369/cGovernance%20and%20Audit%20Committee%20Lay%20Member%20and%20Deputy%20Chair%20Arrangements%20Cymraeg.pdf?LLL=1
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, CLO - Swyddog Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Dyddiad:	20/02/2023

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL
2022/2023

CYNGHORWYR BLAENLLAW / PROMINENT COUNCILLORS

Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council

Cyng./ Cllr. Bryan Davies

Dirprwy Arweinydd y Cyngor /
Deputy Leader of the Council

Cyng./ Cllr. Alun Williams

Cadeirydd y Cyngor /
Chairman of the Council

Cyng./ Cllr. Ifan Davies

Is-Gadeirydd y Cyngor /
Vice-Chairman of the Council

Cyng./ Cllr. Maldwyn Lewis

GRWP Y WEITHREDIAETH / EXECUTIVE GROUP:

Plaid Cymru / The Party of Wales (20 Aelod / Members)

GRWPIAU ANWEITHREDOL / NON EXECUTIVE GROUPS:

Aelodau Annibynnol / Independents (9 Aelod / Members)

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (7 Aelod / Members)

Heb-Grŵp / Un-Grouped (2 Aelod / Member)

AELODAETH Y CABINET A PHWYLLGORAU'R CYNGOR /
MEMBERSHIP OF THE CABINET AND COMMITTEES OF THE
COUNCIL

Y CABINET / THE CABINET

Y Cynghorwyr / Councillors

Portffolio / Portfolio

Cyng./Cllr. Bryan Davies

**Gwasanaethau Democrataidd, Polisi,
Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth**
Democratic Services, Policy, Performance and
People and Organisation

Cyng./Cllr. Alun Williams

Gydol Oes a Llesiant
Through Age and Wellbeing

Cyng./Cllr. Catrin M.S. Davies

**Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau
Cwsmeriaid**
Culture, Leisure and Customer Services

Cyng./Cllr. Clive Davies

Yr Economi ac Adfywio
Economy and Regeneration

Cyng./Cllr. Gareth Davies

Gwasanaethau Cyllid a Chaffael
Finance and Procurement Services

Cyng./Cllr. Keith Henson

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a
Rheoli Carbon**
Highways and Environmental Services and
Carbon Management

Cyng./Cllr. Wyn Thomas

Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Schools, Lifelong Learning and Skills

Cyng./Cllr. Matthew Vaux

**Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol
a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**
Partnerships, Housing, Legal and Governance
and Public Protection

PWYLLGORAU / COMMITTEES

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU / DEVELOPMENT CONTROL COMMITTEE (15)

Cadeirydd / Chairman: **Cyngh./Cllr. Rhodri Davies**
Is Gadeirydd / Vice Chairman: **Cyngh./Cllr. Ifan Davies**

Plaid Cymru / The Party of Wales (7)

Gethin Davies, Rhodri Davies, Chris James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Mark Strong, Carl Worrall.

Aelodau Annibynnol / Independents (4)

Ifan Davies, Marc Davies, Rhodri Evans, Gareth Lloyd.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (3)

Meirion Davies, Geraint Hughes, Sian Maehrlein.

Aelod Ddi-Grŵp / Un-Grouped Member (1)

Hugh Hughes

PWYLLGOR TRWYDDEDU / LICENSING COMMITTEE (11)

Cadeirydd / Chairman: **Cyngh./Cllr. I'w gadarnhau gan y Pwyllgor / To be confirmed by the Committee**
Is Gadeirydd / Vice Chairman: **Cyngh./Cllr. Paul Hinge**

Plaid Cymru / The Party of Wales (6)

Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, (1 sedd wag / vacant seat).

Aelodau Annibynnol / Independents (3)

Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (2)

Paul Hinge, John Roberts.

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO / GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE (6)

Cadeirydd / Chairman: Cyngh./Cllr. Alan Davies
Is Gadeirydd / Vice Chairman: Cyngh./Cllr. Andrew Blackmore

Plaid Cymru / The Party of Wales (3)
Endaf Edwards, Maldwyn Lewis, Mark Strong.

Aelodau Annibynnol / Independents (2)
Gareth Lloyd, Wyn Evans.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (1)
Elizabeth Evans.

Aelod Lleyg / Lay Member
Alan Davies, Andrew Blackmore, Caroline Whitby.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD / DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE (6)

Cadeirydd / Chairman: Cyngh. / Cllr. Elizabeth Evans
Is Gadeirydd / Vice Chairman: Cyngh. / Cllr. Gareth Lloyd

Plaid Cymru / The Party of Wales (3)
Endaf Edwards, Caryl Roberts, Mark Strong.

Aelodau Annibynnol / Independents (2)
Gwyn James, Gareth Lloyd.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (1)
Elizabeth Evans.

PWYLLGOR IAITH / LANGUAGE COMMITTEE (7)

Cadeirydd/ Chairman: **Cyngh./Cllr.** Catrin M.S. Davies
Is Gadeirydd / Vice Chairman: **Cyngh./Cllr.** Chris James

Plaid Cymru / The Party of Wales (3)

Catrin M.S. Davies, Rhodri Davies, Chris James.

Aelodau Annibynnol / Independents (2)

Gwyn Wigley Evans, Gareth Lloyd.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (2)

John Roberts, 1 sedd wag/vacant seat.

PWYLLGOR RHESTR FER / SHORTLISTING COMMITTEE (8)
(AD HOC)

PWYLLGOR MOESG A SAFONAU / ETHICS AND STANDARDS COMMITTEE
(9)

Cadeirydd / Chairman: Caroline White
Is-Gadeirydd/ Vice Chairman: John Weston

Aelodau Annibynnol / Independent Members (5):

Alan Davies, Caryl Davies, Carol Edwards, John Weston, Caroline White.

Aelodau Etholedig / Elected Members (2):

Y Cynghorwyr / Councillors Gwyn Wigley Evans, Caryl Roberts.

Aelodau Etholedig (Cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned) / Elected Members
(Community Council Representatives) (2):

Y Cynghorwyr / Councillors Delyth James, Jan Culley.

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU / OVERVIEW and SCRUTINY COMMITTEES

PWYLLGOR CYMUNEDAU FFYNIANNUS / THRIVING COMMUNITIES COMMITTEE (13)

Cadeirydd / Chairman: Cyngh./Cllr. Gwyn Wigley Evans
Is Gadeirydd / Vice Chairman: Cyngh./Cllr. Marc Davies

Plaid Cymru / The Party of Wales (6)

Gethin Davies, Rhodri Davies, Chris James, Maldwyn Lewis, Ann Bowen Morgan, Carl Worrall.

Aelodau Annibynnol / Independents (3)

Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (3).

Meirion Davies, Sian Maehrlein, John Roberts.

Aelod Ddi-Grŵp / Un-Grouped Member (1)

Steve Davies

PWYLLGOR CYMUNEDAU IACHACH / HEALTHIER COMMUNITIES COMMITTEE (13)

Cadeirydd/ Chairman: Cyngh/Cllr. Caryl Roberts
Is-Gadeirydd/ Vice-Chairman: Cyngh/Cllr. Ceris Jones

Plaid Cymru / The Party of Wales (7)

Amanda Edwards, Eryl Evans, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, Carl Worrall.

Aelodau Annibynnol / Independents (3)

Keith Evans, Gwyn James, Wyn Evans.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (3)

Elaine Evans, Sian Maehrlein, John Roberts.

**PWYLLGOR CYMUNEDAU SY’N DYSGU / LEARNING COMMUNITIES
COMMITTEE (13)**

Cadeirydd/ Chairman: **Cyngh./**Cllr. Endaf Edwards
Is Gadeirydd/Vice Chairman: **Cyngh./**Cllr. Chris James

Plaid Cymru / The Party of Wales (7)

Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Chris James, Ann Bowen Morgan, Mark Strong.

Aelodau Annibynnol / Independents (3)

Euros Davies, Marc Davies, Gareth Lloyd.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (3)

Meirion Davies, Elizabeth Evans, Paul Hinge.

**PWYLLGOR ADNODDAU CORFFORAETHOL / CORPORATE RESOURCES
COMMITTEE (13)**

Cadeirydd / Chairman: **Cyngh./**Cllr. Rhodri Evans
Is-Gadeirydd / Vice Chairman: **Cyngh./**Cllr. Geraint Hughes

Plaid Cymru / The Party of Wales (6)

Endaf Edwards, Eryl Evans, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, Carl Worrall.

Aelodau Annibynnol / Independents (3)

Euros Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans.

Democratiaid Rhyddfrydol / Welsh Liberal Democrats (3)

Elaine Evans, Paul Hinge, Geraint Hughes.

Aelod Ddi-Grŵp / Un-Grouped Member (1)

Hugh Hughes

**PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU / OVERVIEW AND SCRUTINY
COORDINATING COMMITTEE (10)**

Cadeirydd /Chairman: **Cyngh/Cllr. Keith Evans**
Is Gadeirydd / Vice Chair: **Cyngh/Cllr. Wyn Evans**

Ynghyd â / together with:

Marc Davies, Endaf Edwards, Gwyn Evans, Rhodri Evans, Geraint Hughes, Chris James, Ceris Jones, Caryl Roberts,

**(Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
Chairmen and Vice-Chairmen of the Overview and Scrutiny Committees)**

**Mae'r Cynghorwyr uchod hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr
Elusennau / The Councillors above are also members of the Charity Trustee
Committee.**